Ofcom
sicrhau bod cyfathrebiadau'n **gweithio i bawb**

# Cyfryngau'r Genedl 2020

## Adroddiad Cymru




Cyhoeddwyd Awst 5 2020

# Cynnwys

## Adran

Trosolwg ... 2
Effaith Covid-19 ar gynulleidfaoedd a darlledwyr ... 5
Dyfeisiau a gwasanaethau teledu ... 16
Gwylio teledu wedi'i ddarlledu ... 21
Rhaglenni teledu ar gyfer Cymru ac o Gymru ... 32
Astudiaeth achos ... 41
Radio a sain ... 44

# Trosolwg

Mae'r adroddiad *Cyfryngau'r Genedl: Cymru* hwn yn adolygu patrymau allweddol yn y sector teledu a chlyweledol yn ogystal â'r diwydiant radio a sain yng Nghymru. Mae'r rhan fwyaf o'r ymchwil yn ymwneud â 2019 a misoedd cyntaf 2020 ond, ac ystyried amgylchiadau eithriadol pandemig Covid-19, cynhaliodd Ofcom ymchwil i sut mae ein harferion o ran gwylio a chael gafael ar newyddion wedi newid yn ystod y cyfnod hwn hefyd. Rhoddir sylw i hyn yn yr adran *Effaith Covid-19 ar gynulleidfaoedd a darlledwyr*.

Mae'r adroddiad yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am nifer o setiau data, gan gynnwys data pwrpasol wedi'i gasglu'n uniongyrchol gan ddarlledwyr teledu a radio trwyddedig (ar gyfer allbwn, gwariant a refeniw yn 2019), ymchwil defnyddwyr perchnogol Ofcom (ar gyfer barn y gynulleidfa), a BARB a RAJAR (ar gyfer defnydd cynulleidfa).

Yn ogystal â'r adroddiad yma am Gymru, mae adroddiadau ar wahân ar gyfer y DU drwyddi draw, yr Alban, a Gogledd Iwerddon, yn ogystal ag adroddiad data rhyngweithiol.

## Prif bwyntiau:

### Effaith Covid-19 ar gynulleidfaoedd a darlledwyr

- Roedd cynnydd sylweddol yn lefelau gwylio teledu wedi'i ddarlledu yn ystod dyddiau cynnar pandemig Covid-19. Roedd pobl yng Nghymru wedi treulio 5 awr a 30 munud yn gwylio rhywbeth ar y sgrin deledu bob dydd ar gyfartaledd ym mis Ebrill 2020, pan oedd y cyfyngiadau symud ar eu heithaf – 65 munud yn fwy na'r un ffigur yn 2019.
- Gwasanaethau'r BBC oedd wedi cael eu defnyddio fwyaf ar gyfer newyddion am Covid-19 yn ystod dyddiau cynnar y cyfyngiadau symud. Roedd wyth o bob deg (78%) o ymatebwyr ar-lein yng Nghymru wedi defnyddio gwasanaethau'r BBC yn ystod pedair wythnos gyntaf y cyfyngiadau symud.

### Dyfeisiau a gwasanaethau teledu

- Ar ddechrau 2020, roedd gan ychydig o dan hanner y cartrefi yng Nghymru (46%) wasanaethau teledu cebl neu loeren y mae'n rhaid talu amdanynt gan Sky a Virgin Media.
- Roedd gan 59% o gartrefi yng Nghymru deledu wedi cysylltu â'r rhyngrwyd yn Ch1 2020, drwy deledu clyfar neu ddyfais arall fel ffon ffrydio (e.e. Amazon Fire, Roku neu Google Chromecast).
- Roedd gan dros hanner y cartrefi yng Nghymru (54%) wasanaeth tanysgrifio fideo ar-alw (SVoD) gan ddarparwyr fel Netflix, Amazon Prime Video a Now TV ar ddechrau 2020.
- Netflix yw'r mwyaf poblogaidd o'u plith ac roedd yn bresennol mewn tua hanner y cartrefi (54%), ac roedd Amazon Prime Video yn bresennol mewn tua chwarter y cartrefi (24%).
- BBC iPlayer oedd y chwaraewr fideo ar-alw darlledwyr (BVoD) mwyaf poblogaidd yng Nghymru. Roedd yn cael ei wylio mewn hanner y cartrefi yng Nghymru (50%) ar ddechrau 2020, o'i gymharu ag ITV Hub (38%), All4 (28%) a My5 (23%).

### Gwylio teledu wedi'i ddarlledu

- Ar gyfartaledd, roedd pobl yng Nghymru wedi gwylio 3 awr 21 munud o deledu wedi'i ddarlledu bob dydd yn 2019. Mae hynny'n ostyngiad o 13 munud (6.1%) o'i gymharu â ffigur 2018, sef 3 awr 33 munud.
- Pennod arbennig Gavin and Stacey ar gyfer y Nadolig oedd y rhaglen a gafodd y nifer uchaf o wylwyr yng Nghymru yn 2019, gyda chynulleidfa o bron i 1.3 miliwn.
- Y sianeli teledu BBC One ac ITV Cymru yw'r ffynonellau newyddion a ddefnyddir fwyaf gan bobl yng Nghymru.

### Gwariant ar raglenni teledu i Gymru ac o Gymru

- Yn 2019, gwelwyd gostyngiad o 2% i £33.5m yng ngwariant y BBC ac ITV Cymru, gyda'i gilydd, ar raglenni i Gymru. Y BBC sy'n dal i gyfrannu'r rhan fwyaf o'r gwariant ar gynnwys sy'n cael ei ddangos am y tro cyntaf i Gymru, gan wario £27.4m, ac ITV yn cyfrannu'r £6.1m sy'n weddill.
- Cynhyrchodd y BBC 629 awr o raglenni lleol yn 2019, ychydig yn uwch na'r flwyddyn flaenorol, a chynhyrchodd ITV 332 awr o raglenni lleol, ychydig yn llai nag yn 2018.

### Radio a sain

- Mae naw o bob deg oedolyn yng Nghymru yn gwrando ar radio byw bob wythnos, gan wrando am fwy nag 20 awr ar gyfartaledd bob wythnos.

- Mae gwasanaethau'r BBC yn fwy poblogaidd yng Nghymru nag mewn unrhyw ran arall o'r DU, gyda Radio 2 yn cadw ei safle fel yr orsaf y gwrandewir arni fwyaf ledled Cymru.
- Roedd gwrando digidol – drwy radio DAB, teledu daearol digidol ac ar-lein (gan gynnwys seinyddion clyfar) – yn cyfrif am 52% o'r holl wrando yn Ch1 2020, gan basio gwrando'n analog am y tro cyntaf erioed yn Ch2 2019.
- Mae gan ychydig dros chwarter y cartrefi yng Nghymru seinyddion clyfar (26%). Y defnydd mwyaf poblogaidd o seinyddion clyfar ymysg defnyddwyr yng Nghymru oedd cael adroddiadau am y tywydd (63%) a gwrando ar orsaf radio fyw neu wasanaeth ffrydio cerddoriaeth (62% ill dau).

# Effaith Covid-19 ar gynulleidfaoedd a darlledwyr

## Cyflwyniad

Roedd rôl darlledwyr yn bwysicach nag erioed yn ystod dyddiau cynnar pandemig Covid-19. Roedd y cyhoedd yn troi at ddarlledwyr – teledu a radio – i gael yr wybodaeth ddiweddaraf am y pandemig ac i gael adloniant wrth i'r cyfyngiadau symud ddod i rym. Mae'r ffigurau gwylio o ddiwedd mis Mawrth ymlaen yn tanlinellu rôl allweddol darlledwyr dros y cyfnod hwnnw.

Mae'r pandemig wedi cael effaith sylweddol ar bob agwedd ar y sector darlledu yng Nghymru a bydd yn parhau i effeithio ar y diwydiant am fisoedd lawer.

## Gwylio teledu wedi'i ddarlledu a chael gafael ar newyddion

### Cyfyngiadau symud yn achosi cynnydd enfawr yn y lefelau gwylio teledu

O ganlyniad i benderfyniad Llywodraeth y DU i roi cyfyngiadau symud ar waith ym mis Mawrth 2020, roedd gan bobl fwy o amser i gymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden dan do yn y gwanwyn a dechrau'r haf nag yr oedd ganddynt mewn unrhyw gyfnod estynedig y gellir ei gymharu yn y gorffennol diweddar.

O ganlyniad i hynny, roedd cynnydd sylweddol yn y lefelau gwylio teledu wedi'i ddarlledu a'r hyn rydym yn ei alw'n gwylio 'anhysbys' – amser sy'n cael ei dreulio yn gwylio ar y set deledu nad oes modd i BARB, yr asiantaeth mesur teledu, ei briodoli i raglenni wedi'u darlledu.[1]

Roedd pobl yng Nghymru wedi treulio 5 awr a 30 munud yn gwylio rhywbeth ar y sgrin deledu bob dydd ar gyfartaledd ym mis Ebrill 2020, pan oedd y cyfyngiadau symud ar eu heithaf – 65 munud yn fwy na'r un ffigur yn 2019. Roedd y rhan fwyaf o'r amser hwn yn dal yn cael ei dreulio'n gwylio teledu wedi'i ddarlledu (3 awr a 38 munud, cynnydd o 9% o'i gymharu â 2019). 1 awr a 40 munud a gafodd ei dreulio'n gwylio'r set deledu lle nad oes modd ei gysylltu â darllediadau (fel YouTube, gwasanaethau tanysgrifio fideo ar-alw a chwarae gemau) – cynnydd o 74% o'i gymharu â 2019.

[1] Gwylio anhysbys = set deledu yn cael ei defnyddio ond nad oes modd ei gysylltu â sain na'i adnabod mewn unrhyw fodd arall. Mae'n cynnwys chwarae gemau, gwylio DVDs/cyfresi/archifau, gwasanaethau tanysgrifio fideo ar-alw, YouTube, apiau ar deledu clyfar a llywio o amgylch Cyfeiryddion Rhaglenni Electronig (EPG guides) lle nad oes llun o'r cynnwys sy'n cael ei ddarlledu.

## Oriau Brig Gwylio Teledu yng Nghymru: Ebrill 2020 yn ystod uchafbwynt y cyfyngiadau symud








Yn yr wythnos yn dechrau 23 Mawrth (wythnos 13), pan annerchodd Prif Weinidog y DU y wlad i gyhoeddi'r cyfyngiadau symud, fe wnaeth lefelau gwylio teledu wedi'i ddarlledu ar gyfartaledd bob dydd gyrraedd lefel uchaf o 3 awr 58 munud yng Nghymru.

Wrth i'r cyfyngiadau symud ddatblygu, roedd y cyfuniad o wylio llai o raglenni newyddion a llacio'r cyfyngiadau cymdeithasol achosi i lefelau gwylio teledu wedi'i ddarlledu ostwng o'r lefel uchaf, ond roedd yn dal yn uwch na lefelau 2019 yn ystod y cyfnod dadansoddi hyd at ddiwedd mis Mehefin 2020, ac eithrio'r wythnos yn dechrau 20 Ebrill (wythnos 17). Ar y llaw arall, ni wnaeth gwylio anhysbys ostwng yn yr un modd, gan gynnal llawer o'r cynnydd yr oedd wedi'i sicrhau o ganlyniad i'r cyfyngiadau symud, yn bennaf oherwydd cynnydd parhaus yn lefelau gwylio gwasanaethau tanysgrifio fideo ar-alw fel Netflix ac Amazon Prime Video.

**Ffigur 1: Cyfanswm gwylio teledu wedi'i ddarlledu a gwylio anhysbys (munudau y pen bob dydd) yng Nghymru**




*Ffynhonnell: BARB. Pob unigolyn (dros 4 oed). Ardal BBC Cymru*

Er y cynnydd yn yr amser a oedd yn cael ei dreulio yn gwylio teledu wedi'i ddarlledu yn ystod y cyfyngiadau symud, roedd cyfran y bobl a oedd yn gwylio ar gyfartaledd bob wythnos (cyrhaeddiad

wythnosol ar gyfartaledd[2]) yn dal yn is na lefelau 2019 ym mhob mis rhwng Ionawr a Mehefin 2020. Dros y chwe mis hyn, 85.4% oedd y cyrhaeddiad wythnosol ar gyfartaledd ar gyfer yr holl deledu wedi'i ddarlledu a fesurir yng Nghymru, o'i gymharu ag 86.7% dros yr un cyfnod yn 2019.

Gwelir y gostyngiad o un flwyddyn i'r llall yng nghyfanswm cyrhaeddiad teledu wedi'i ddarlledu yng Nghymru er gwaethaf cynnydd yng nghyfran y bobl sy'n gwylio rhaglenni newyddion. Roedd cyrhaeddiad wythnosol ar gyfartaledd rhaglenni newyddion ar sianeli teledu wedi'i ddarlledu a fesurir yn hanner cyntaf 2020 ar ei uchaf ym mis Mawrth (71.3%) ac er ei fod wedi gostwng ers hynny (i lawr i 66.8% ym mis Mehefin 2020), mae'n dal yn uwch na'r misoedd cyfatebol yn 2019.[3] Roedd y cynnydd yn lefelau gwylio newyddion ym mis Mawrth wedi helpu'r sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus i gynyddu eu cyfran o'r holl wylio teledu wedi'i ddarlledu; i 59.3% ym mis Mawrth o 56.7% ym mis Chwefror.

### Cymru Greadigol a'i hymateb i Covid-19

Wedi'i lansio ym mis Ionawr 2020, mae Cymru Greadigol yn asiantaeth yn Llywodraeth Cymru a sefydlwyd i ysgogi twf ar draws y diwydiannau creadigol, i adeiladu ar lwyddiannau presennol, ac i ddatblygu doniau a sgiliau newydd. Ei rôl yw hyrwyddo'r diwydiannau creadigol yng Nghymru, i roi un llais cryf ar gyfer y sector, ac i wneud Cymru'n un o'r mannau gorau i fusnesau creadigol ffynnu.

Mae'n canolbwyntio i ddechrau ar dri is-sector allweddol: ffilm a theledu, digidol a gemau, a cherddoriaeth. Ar gyfer pob un o'r sectorau hyn, bydd Cymru Greadigol yn datblygu cynllun gweithredu cynhwysfawr gyda rhanddeiliaid allweddol, gan geisio hyrwyddo pob sector yn rhyngwladol a rhoi cyfle i gwmnïau ddatblygu eu proffil byd-eang.

Mae Cymru Greadigol wedi bod yn gweithio i ddarparu cymorth ble y mae ei angen fwyaf a chafodd cyllid brys ar gyfer y sectorau cerddoriaeth, teledu a digidol ei lansio fel rhan o'r £18 miliwn o gymorth ar gyfer y sectorau diwylliant, creadigol a chwaraeon yng Nghymru. Mae wedi rhoi cymorth i gyfanswm o 72 o fusnesau drwy £1.32m o gyllid brys. Hyd at ddiwedd mis Mehefin, roedd 244 o fusnesau creadigol hefyd wedi elwa ar tua £3.4m o gymorth gan Gronfa Cadernid Economaidd Llywodraeth Cymru.


Ar y cyd a'i rhanddeiliaid, mae Cymru Greadigol wedi cyhoeddi canllawiau lefel uchel ynghylch sut gall y diwydiannau creadigol yng Nghymru ailafael yn raddol yn eu gwaith. Mae'r canllawiau ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru

Mae Cymru Greadigol yn parhau i ddiweddaru'r canllawiau wrth i Gymru gael ei chefn ati ar ôl Covid-19 a bydd yn parhau i weithio'n rhagweithiol gyda rhanddeiliaid allweddol i wneud yn siŵr bod ei systemau cymorth yn addas i'r diben, er mwyn hyrwyddo sefydlogrwydd a thwf sectorau.

## Y BBC oedd y ffynhonnell newyddion a ddefnyddiwyd fwyaf i gael gwybodaeth am Covid-19

Does yr un stori newyddion yn y degawdau diwethaf wedi bod mor flaenllaw â phandemig Covid-19. Mae wedi effeithio ar bob rhan o gymdeithas ym mhedwar ban byd. Nid yw'n syndod bod awydd pobl am newyddion wedi cynyddu'n aruthrol yn ystod y cyfnod hwn, pan oedd y cyhoedd yn

[2] Meini prawf cyrhaeddiad ar gyfer yr holl deledu wedi'i ddarlledu: 15+ munud yn olynol.
[3] Meini prawf cyrhaeddiad ar gyfer rhaglenni newyddion: 3+ munud yn olynol. Mae rhaglenni newyddion yn cynnwys newyddion cenedlaethol/rhyngwladol a newyddion rhanbarthol.




awyddus i gael yr wybodaeth ddiweddaraf. O ystyried y dirwedd cyfryngau amrywiol sy'n bodoli ym mhob un o wledydd y DU, cynhaliodd Ofcom ymchwil yn ystod y pandemig i ddeall yn well o ble roedd pobl yn cael newyddion. Mae'r canfyddiadau'n dangos mai gwasanaethau radio a theledu darlledwyr traddodiadol fel y BBC ac ITV oedd y ffynonellau newyddion a ddefnyddiwyd fwyaf gan bobl yng Nghymru, ymhell ar y blaen i gyfryngau cymdeithasol.


Yn ystod pedair wythnos gyntaf y cyfyngiadau symud (27 Mawrth i 19 Ebrill), roedd holl boblogaeth ar-lein Cymru, fwy neu lai, yn cael gafael ar newyddion a gwybodaeth am Covid-19 o leiaf unwaith y diwrnod ac nid oedd gwahaniaeth rhwng y gwledydd unigol (Cymru 98%, Lloegr 97%, yr Alban 97%, Gogledd Iwerddon 98%). Er bod y ffigur hwn wedi gostwng, roedd yn dal yn uchel yn ystod y pedair wythnos hyd at ganol mis Mai (91%) a'r pedair wythnos hyd at ganol mis Mehefin (90%). Mae'r amlder wedi gostwng ers yr adeg pan oedd yr argyfwng ar ei eithaf, Yn ystod pedair wythnos gyntaf y cyfyngiadau symud roedd un o bob pum person yng Nghymru (19%) wedi cael gafael ar newyddion a gwybodaeth o leiaf 20 gwaith neu fwy, o'i gymharu ag 8% yn ystod y pedair wythnos hyd at ganol mis Mehefin.

Roedd wyth o bob deg (78%) o ymatebwyr ar-lein yng Nghymru wedi defnyddio gwasanaethau'r BBC (gweler Ffigur 4) yn ystod pedair wythnos gyntaf y cyfyngiadau symud. Hwn oedd y gwasanaeth a ddefnyddiwyd fwyaf ac roedd hynny'n wir ym mhob gwlad (Lloegr 79%, yr Alban 76% a Gogledd Iwerddon 83%). Gwasanaethau'r BBC oedd wedi'u defnyddio fwyaf eto yn ystod y pedair wythnos hyd at ganol mis Mai (76%) a'r pedair wythnos hyd at ganol mis Mehefin (75%). Roedd hanner yr ymatebwyr ar-lein yng Nghymru wedi defnyddio gwasanaethau ar wahân i rai'r BBC (ITV Cymru yn bennaf) yn ystod pedair wythnos gyntaf y cyfyngiadau symud (54%), ac roedd hynny'n wir eto yn ystod y pedair wythnos hyd at ganol mis Mehefin (53%).

Roedd y defnydd o ddarlledwyr ar wahân i'r BBC yn uwch yng Ngogledd Iwerddon (74%) nag yr oedd yng Nghymru (54%), yr Alban (59%) a Lloegr (52%) yn ystod pedair wythnos gyntaf y cyfyngiadau symud, ac roedd yn dal yn uwch (66%) yn ystod y pedair wythnos hyd at ganol mis Mehefin.

Roedd pedwar o bob deg (39%) o'r ymatebwyr ar-lein yng Nghymru wedi defnyddio cyfryngau cymdeithasol erbyn canol mis Mehefin. Er bod pedwar o bob deg (41%) wedi defnyddio ffynonellau swyddogol fel y GIG yn ystod pedair wythnos gyntaf y cyfyngiadau symud, roedd hyn wedi gostwng i 32% erbyn canol mis Mehefin.

**Ffigur 2: Ffynonellau a ddefnyddiwyd yng Nghymru i gael newyddion/gwybodaeth am Covid-19**




*Ffynhonnell: Newyddion a gwybodaeth am Covid-19: defnydd ac agweddau, Ofcom*
*C3a. Pa rai o'r ffynonellau canlynol, os o gwbl, ydych chi wedi'u defnyddio i gael gwybodaeth/newyddion am y Coronafeirws yn yr wythnos ddiwethaf? Sail: Yr holl ymatebwyr yng Nghymru sy'n cael gwybodaeth/newyddion am y Coronafeirws, Mis 1 (443), Mis 2 (445) a Mis 3 (399)*

### Ysgol Newyddiaduraeth, y Cyfryngau a Diwylliant Prifysgol Caerdydd

Cynhaliodd Ysgol Newyddiaduraeth, y Cyfryngau a Diwylliant Prifysgol Caerdydd ymchwil a oedd yn edrych ar ddealltwriaeth y cyhoedd o'r gwahanol gyfyngiadau symud ar draws y pedair gwlad yn ystod y pandemig, a sut roedd rhaglenni newyddion rhwydwaith wedi adrodd arnynt.

Roedd y prosiect ymchwil wedi cynnal astudiaeth dyddiadur newyddion gyda 200 o gyfranogwyr ledled y DU rhwng mis Ebrill a mis Mai 2020. Roedd yr ymchwil wedi canfod bod pobl wedi'u drysu gan y canllawiau iechyd roeddent yn eu cael ac nad oeddent yn deall pa lywodraeth oedd yn gyfrifol am y mesurau.

Pan ofynnwyd i'r ymatebwyr rhwng 7 Mai a 10 Mai ai Llywodraeth y DU ynteu Lywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig oedd yn gyfrifol am gyfyngiadau symud y DU, dywedodd hanner yr ymatebwyr, yn anghywir, mai Llywodraeth y DU oedd yn gyfrifol amdanynt.

Mewn cofnod dyddiadur arall, dangosodd yr ymchwilwyr ganllawiau newydd Llywodraeth y DU i gyfranogwyr, sef y dylai pobl yn Lloegr "fod yn wyliadwrus" yn hytrach nag "aros gartref". Dim ond 11 o 20 o ymatebwyr oedd wedi nodi'n gywir mai dim ond i Loegr yr oedd y canllawiau'n berthnasol, ac roedd bron i draean yn credu eu bod yn ganllawiau i'r DU gyfan.

Yn gyffredinol, roedd yr ymchwilwyr wedi canfod bod eisiau rhagor o eglurder ar yr ymatebwyr yn yr adroddiadau newyddion am berthnasoedd gwahanol gyfyngiadau symud ar draws y DU. Fel y dywedodd un ymatebydd: "Mae gwahaniaethu rhwng y rheolau mewn gwahanol rannau o'r DU wedi bod yn anodd. Weithiau dydy gohebwyr ddim yn dweud pa reolau sy'n berthnasol i ba fannau. Dylen nhw nodi'n glir i bwy mae'r rheolau hyn yn berthnasol."

I archwilio pa mor eglur yr oedd newyddiadurwyr yn cyfathrebu wrth adrodd ar y cyfyngiadau symud, roedd y tîm ymchwilio wedi edrych ar fwletinau newyddion teledu rhwydwaith yn y DU. Roeddent wedi edrych ar ddyddiadau allweddol cyhoeddiadau Llywodraeth y DU rhwng mis Mawrth a mis Mehefin er mwyn asesu sut roedd bwletinau rhwydwaith wedi cyfathrebu perthnasedd y cyfyngiadau i wylwyr ar draws y pedair gwlad.

Canfu'r ymchwil fod darlledwyr, ar y cyfan, wedi cyflwyno'r straeon gan ddweud bod y DU dan gyfyngiadau symud ym mis Mawrth a mis Ebrill. Roeddent yn canolbwyntio ar Lywodraeth y DU a chyhoeddiadau Prif Weinidog y DU. Ychydig o sylw a roddwyd i'r gwledydd ac ychydig o gydnabyddiaeth bod y tri sefydliad datganoledig wedi cydlynu ymateb i'r coronafeirws gyda Llywodraeth y DU. Yn aml roedd newyddiadurwyr wedi cyfeirio at un penderfyniad gan Lywodraeth y DU yn hytrach nag adlewyrchu barn gyfunol y pedair Llywodraeth ar draws y DU.

Ym mis Mai a mis Mehefin, roedd mwy o sôn am gyfyngiadau symud ar draws y DU, gan gyfeirio at y gwahaniaethau rhwng y gwledydd. Yn gyffredinol, canfu'r ymchwil fod newyddiadurwyr wedi cyfeirio at y ffaith mai i Loegr yr oedd mesurau'n berthnasol. Ond anaml yr oedd bwletinau newyddion wedi esbonio'r gwahaniaeth rhwng dulliau gweithredu ar draws y DU a phan oeddent yn gwneud hynny, nid oedd yn cael ei wneud â llawer o eglurder neu fanylder; er enghraifft crybwyll Cymru neu'r gwledydd eraill yn gyflym iawn ar ddiwedd eitem newyddion.

Serch hynny, roedd enghreifftiau o gyfeiriad pendant at y gwahanol ddulliau gweithredu ym mhob gwlad. Ar *News at Ten* ITV ar 28 Mai, er enghraifft, roedd graffig ar y sgrin yn esbonio'r canllawiau iechyd diweddaraf yn y pedair gwlad yn Saesneg:

"New rules mean that from Monday people in England will be able to gather in groups of up to six people at once. That must be outdoors, but can, for the first time, include private gardens. And social distancing rules will still apply, so different households must remain at least 2m apart at all times. Scotland announced its own easing will begin from tomorrow, up to eight people across two households can meet outdoors. In Wales, an announcement on loosening restrictions is expected tomorrow. While Northern Ireland plans to enter the second phase of lifting its lockdown a week on Monday."

Mae ymchwil gan Brifysgol Caerdydd wedi awgrymu yn y gorffennol bod cynulleidfaoedd yn fwy tebygol o ddeall perthnasoedd datganoledig straeon newyddion pan fydd newyddiadurwyr yn cyfeirio'n eglur at wledydd.[4] Nid oedd cyfeiriadau ymhlyg, fel dweud "yn Lloegr" ar ddechrau eitem newyddion, yn ddigon i dynnu sylw gwylwyr yng Nghymru at berthnasoedd straeon penodol, fel pan oedd meddygon iau ar streic yn Lloegr yn unig.

Mae'r gwahanol ymatebion i'r pandemig ledled y DU wedi tynnu sylw at bwysigrwydd newyddion rhwydwaith yn adrodd yn gywir ar benderfyniadau datganoledig. I wella dealltwriaeth y cyhoedd, mae ymchwil Prifysgol Caerdydd yn awgrymu y gallai newyddion rhwydwaith feddwl am ffyrdd mwy creadigol o gyfathrebu gwahanol benderfyniadau polisi y pedair llywodraeth yn y DU yn glir, dro ar ôl tro.

Cynhyrchwyd ymchwil Ysgol Newyddiaduraeth Prifysgol Caerdydd gan yr Athro Stephen Cushion, Dr Maria Kyriakidou, Dr Marina Morani a Dr Nikki Soo. Cafodd ei ariannu gan brosiect Cyngor Ymchwil y Celfyddydau a'r Dyniaethau o'r enw 'Countering disinformation: enhancing journalistic legitimacy in public service media' (Cyfeirnod grant AH/S012508/1). Mae rhagor o fanylion am yr ymchwil ar gael ar y wefan.

## Sut mae darlledwyr yng Nghymru wedi ymateb i bandemig Covid-19

Roedd gwasanaethau teledu a radio wedi cael cynulleidfaoedd uchel wrth i bobl chwilio am newyddion a gwybodaeth, yn ogystal â chwmni ac adloniant yn ystod y cyfyngiadau symud. Ond roedd parhau i ddarparu gwasanaeth yn bell o fod yn syml yn sgil y canllawiau cadw pellter cymdeithasol a oedd ar waith.

Er gwaethaf yr heriau, roedd darlledwyr wedi parhau i ddarparu rhaglenni newyddion, materion cyfoes ac adloniant drwy gydol yr wythnos ar y teledu a'r radio.

### Cynhyrchu rhaglenni teledu yn ystod y cyfyngiadau symud

Yn ystod y cyfyngiadau symud, darparodd timau BBC Cymru Wales raglenni dyddiol cynhwysfawr ar draws 14 awr o allbwn yn ystod dyddiadau'r wythnos ar gyfer Newyddion S4C, BBC Wales Today, BBC Radio Cymru a BBC Radio Wales.

Ar y teledu, cafodd cynhadledd newyddion coronafeirws ddyddiol Llywodraeth Cymru ei darlledu bob dydd am 12.30pm ar BBC One Wales a'i hailadrodd yn llawn ar BBC Radio Wales.

[4] Stephen Cushion, Justin Lewis, Allaina Kilby, 'Why context, relevance and repetition matter in news reporting: Interpreting the United Kingdom's political information environment', Journalism, 2020, 21(1) 34-53.

Cafodd gwasanaethau radio eu hymestyn. Cafodd Post Cyntaf ar BBC Radio Cymru ei ymestyn hanner awr bob dydd, a Gareth Lewis in Drivetime ar BBC Radio Wales ei ymestyn awr. Darparwyd yr wybodaeth ddiweddaraf am y pandemig yng Nghymru ar wasanaethau ar-lein y BBC yn Gymraeg ac yn Saesneg hefyd.

Roedd BBC Radio Cymru a BBC Radio Wales wedi darparu amrywiaeth o raglenni gwybodaeth ac adloniant yn ystod y cyfnod hwn. Fe wnaeth Bitesize, gwasanaeth addysg ar-lein y BBC, ailwampio ei fodel cynhyrchu, gan gynnig gwersi dyddiol i adlewyrchu'r cwricwlwm datganoledig a dwyieithog yng Nghymru.

Hefyd cyhoeddodd BBC Cymru Wales ystod o raglenni newydd wedi'u comisiynu yn ystod y cyfyngiadau symud, a hynny ar gyfer y teledu, radio ac ar-lein. Ar ben hynny, dosbarthodd BBC Cymru Wales becyn cymorth i'r sector creadigol a galw ar gwmnïau cynhyrchu annibynnol i gyflwyno syniadau am raglenni newydd.

Yn dilyn y rownd comisiynu, cynhyrchodd cwmnïau annibynnol dros 30 o raglenni newydd i BBC One Wales, BBC Radio Cymru a BBC Radio Wales, i'w darlledu cyn diwedd mis Medi.

## Canolbwyntio ar newyddion

Roedd darpariaeth newyddion gynhwysfawr gan ITV Cymru Wales ar draws ei hamserlen yn y bore, amser cinio a gyda'r nos. Cafodd trefn rhaglenni ei newid i ganolbwyntio ar effaith y coronafeirws a sut roedd yn cael ei frwydro, ac i ledaenu gwybodaeth bwysig am iechyd y cyhoedd.

Roedd *Wales at Six* yn cynnwys cyfweliadau byw, hir gyda ffigurau allweddol o'r gwasanaethau iechyd a gwasanaethau argyfwng eraill, yn ogystal â straeon o'r 'rheng flaen' am y frwydr yn erbyn y pandemig. Roedd BBC Cymru Wales ac ITV Cymru Wales wedi chwarae rhan bwysig o ran tynnu sylw at y gwahaniaethau rhwng dulliau gweithredu Llywodraeth Cymru a gweinyddiaethau eraill y DU o ran cyfyngiadau Covid.

Roedd adroddiad cynnar ar ITV Cymru Wales, a gafodd ganmoliaeth eang ar gyfryngau cymdeithasol ledled y DU, wedi dangos y drafferth a gafodd un gohebydd wrth esbonio pwysigrwydd gwarchod (shielding) i'w fam a'i ewythr anabl. Roedd ffigurau meddygol profiadol wedi trafod yn fanwl sut roeddent yn brwydro'r feirws ar eu wardiau.

Cafodd cyfran sylweddol o'r rhaglenni ei neilltuo i straeon calonogol a rhai a oedd yn codi'r ysbryd. Roedd lluniau o eifr gwyllt yn crwydro strydoedd gwag Llandudno wedi ymddangos ar raglenni ledled y DU ac mor bell i ffwrdd â'r Dwyrain Canol.

Cafodd rhaglenni materion cyfoes pwrpasol eu trefnu mewn slotiau oriau brig i gyrraedd cynulleidfa mor fawr â phosib ar S4C ac ITV Cymru Wales. Cafodd fformat brandiau adnabyddus a sefydledig fel *Y Byd ar Bedwar, Y Byd yn ei Le* ac *Wales This Week* ei newid i fod yn rhaglenni yn y stiwdio, er mwyn adlewyrchu natur ddirybudd y stori.

## Ar-lein a chyfryngau cymdeithasol

Roedd darlledwyr wedi canolbwyntio ar eu presenoldeb ar-lein yn ystod y pandemig hefyd. Cafodd ITV Cymru Wales 3.1 miliwn o ymweliadau â'u tudalen ym mis Ebrill 2020. Cafodd eu fideos ar Facebook eu gwylio 6.1 miliwn o weithiau, a'u fideos ar Twitter filiwn o weithiau. Roedd y darlledwr

yn dangos cynhadledd newyddion ddyddiol Llywodraeth Cymru yn fyw ar ei lwyfannau cyfryngau cymdeithasol, ynghyd â sylwebaeth a dadansoddiad.

## Effaith ar y sgrin

Mae gwneud rhaglenni teledu yn weithgaredd tîm ac er mai dim ond mân newidiadau yr oedd gwylwyr wedi sylwi arnynt, roedd yn rhaid i ddarlledwyr wneud addasiadau sylweddol y tu ôl i'r llenni. Roedd rheolwyr wedi gorfod meddwl am ffyrdd newydd a diogel o weithio, a chriwiau wedi canfod ffyrdd arloesol o barhau i ffilmio dan y cyfyngiadau symud.

Cafodd pecynnau newyddion eu ffilmio gan gyfranwyr ar eu ffonau symudol, a defnyddiwyd Skype a systemau meddalwedd fideo eraill i gofnodi a golygu clipiau cyfweliadau. Yn dilyn degawd o fuddsoddiad mewn technolegau symudol, roedd yr holl newyddiadurwyr yn ITV Cymru Wales wedi gallu gweithio o bell gartref i olygu pecynnau, cael gafael ar drefn rhaglenni, ysgrifennu sgriptiau, dychwelyd adroddiadau cyflawn, ac ymddangos yn fyw o'u cartrefi ar y rhaglen newyddion gyda'r nos. Roedd newyddiadurwyr wedi defnyddio technoleg darlledu symudol arall hefyd – gan gynnwys system LiveU o ddarlledu drwy gyfrwng mwy nag un cerdyn sim ffôn symudol.

Yn anochel, bu effaith sylweddol ar amserlenni ac ar y sector ehangach yng Nghymru. Roedd yn rhaid rhoi'r gorau i ffilmio'r rhan fwyaf o gynyrchiadau S4C, ond roedd modd cynhyrchu rhywfaint o hyd. Llwyddodd rhaglenni cylchgrawn fel *Prynhawn Da* a *Heno* i barhau i ddarparu sioe bob dydd o dan y rheolau cadw pellter cymdeithasol.

Cafodd rhywfaint o gynnwys i blant a chynnwys ar gyfer y gyfres newid ffordd o fyw *Ffit Cymru*, y sioe adloniant ffeithiol *Priodas Pum Mil Dan Glo*, *Eisteddfod T*, a *Cyswllt (mewn Covid)*, y ddrama gyntaf i gael ei chynhyrchu dan y cyfyngiadau symud yn y DU, ei recordio a'i ddarlledu.

Ond gan fod y rhan fwyaf o ddramâu, chwaraeon, digwyddiadau byw, adloniant, operâu sebon a chynyrchiadau ffeithiol wedi cael eu canslo neu eu gohirio, bydd amserlenni S4C yn dal i deimlo'r effaith dros y misoedd nesaf.

## Yma i Chi

O fewn dyddiau i gyhoeddi'r cyfyngiadau symud, roedd S4C wedi lansio sianel naid bwrpasol o'r enw 'Yma i Chi' ar ei chwaraewyr ar-lein S4C Clic, er mwyn "cynnig cymorth ac arweiniad, ac i gynrychioli llais y genedl".

Ymysg y cynnwys newydd ar Yma i Chi oedd cyfres o ffilmiau byr o'r enw *Bwrw 'Mlaen*, a oedd yn dilyn gweithiwr allweddol ar ddiwrnod gwaith, ac roedd *I.T a Fi* yn cynnwys rhywfaint o gyngor ysgafn gan y cenedlaethau iau am sut mae cadw mewn cysylltiad â phobl gan ddefnyddio technoleg fel Skype, WhatsApp a Facetime.

Lansiodd S4C *Ysgol Cyw* hefyd er mwyn cefnogi dysgwyr yn eu cartrefi, gan ddarparu setiau bocs a chynnwys o'r archif. Adroddwyd cynnydd sylweddol yn y nifer a oedd wedi gwylio cynnwys S4C i blant.

Yn y cyfamser cafodd *Hansh*, brand ar-lein S4C, ei fis gorau erioed ar gyfryngau cymdeithasol ym mis Ebrill 2020; gwelodd y darlledwr gynnydd o 200% yn y nifer a oedd wedi gwylio cynnwys S4C ar Facebook, o'i gymharu â mis Ebrill 2019.

## Cymorth i'r sector

Darparodd S4C becyn cymorth gwerth £6m i'r sector cynhyrchu yng Nghymru ym mis Ebrill. Roedd hyn yn cynnwys:

- cylch comisiynu llwybr carlam, gyda chynnwys newydd gwerth tua £5m. Gofynnwyd i gwmnïau cynhyrchu feddwl yn greadigol am sut maen nhw'n darparu cynnwys ac i gyflwyno rhaglenni a allai gael eu darlledu cyn gynted â phosib.
- Cymorth ychwanegol i gwmnïau cynhyrchu. I alluogi cwmnïau i gefnogi eu staff cynhyrchu, cyflwynodd S4C daliadau cyfnodol ychwanegol os oedd cwmni yng nghanol y cyfnodau pan oedd rhaid dod â chynyrchiadau i ben.
- Porth ar-lein newydd i roi gwybod i gwmnïau cynhyrchu am yr holl gymorth Covid-19 oedd ar gael iddynt.

Hefyd, cynigiodd S4C slotiau hysbysebu am ddim i elusennau a oedd yn cynnig cymorth Covid-19 yng Nghymru, yn ogystal â chymorth ariannol i helpu i greu'r hysbysebion.

### Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu Senedd Cymru

Cynhaliodd y Pwyllgor ymchwiliad byr i Covid-19 a'r effaith ar y sectorau yn ei gylch gwaith, ac mae wedi cyhoeddi ei adroddiad ac argymhellion terfynol mewn cysylltiad â'r diwydiannau creadigol. Ymysg y rheini a roddodd dystiolaeth i ymchwiliad y Pwyllgor oedd BBC Cymru Wales, ITV Cymru Wales a S4C, yn ogystal â Teledwyr Annibynnol Cymru, gan gynrychioli'r sector teledu annibynnol yng Nghymru.

Mae adroddiad y Pwyllgor yn nodi pwysigrwydd a gwerth darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru o ran "darparu gwybodaeth gyfredol, sy'n benodol i Gymru, ynghylch y pandemig a rhagofalon y cyfyngiadau symud." Dywedodd Helen Mary Jones AS, Cadeirydd y Pwyllgor: "Mae darlledu yn y sector cyhoeddus wedi bod yn elfen hanfodol o'n brwydr yn erbyn COVID-19. Mae darlledwyr wedi darparu gwybodaeth hanfodol am iechyd y cyhoedd sy'n benodol i Gymru, cymorth addysg i blant, yn ogystal ag adloniant mawr ei angen."

Trafododd y Pwyllgor y pwysau ariannol sy'n wynebu darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus hefyd, gan ddweud: "Dylai Llywodraeth Cymru ymateb i ymgynghoriad Ofcom ynglŷn â dyfodol darlledu gwasanaeth cyhoeddus i eirioli dros gyllid digonol i sicrhau y gall darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus barhau i ddarparu rhaglenni sy'n tarddu o Gymru a chynnwys unigryw o Gymru."

Roedd y Pwyllgor yn cydnabod y pecyn cymorth ariannol gwerth £1.57bn i'r sectorau celfyddydau, diwylliant a threftadaeth a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y DU, a'r fformiwla cyllid Barnett dilynol o £59m i Gymru. Roedd y Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru "ymrwymo i wario'r £59 miliwn cyfan ar y celfyddydau, diwylliant a threftadaeth."

Clywodd y Pwyllgor bryderon am effaith y cyfyngiadau symud ar y gweithlu ar draws y gadwyn gyflenwi yn y diwydiannau creadigol. Roedd y Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda Llywodraeth y DU i "ymchwilio i ffyrdd o roi cymorth ariannol i weithwyr yn y diwydiannau creadigol sydd, wrth i'r cyfnod clo lacio, yn methu dychwelyd i'r gwaith yn ddiogel o hyd."

Clywodd y Pwyllgor am y rhwystrau sy'n wynebu'r sector o ran ailgychwyn cynyrchiadau, ac mai yswiriant yw'r rhwystr mwyaf. Roedd y Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru "gychwyn trafodaethau gyda'r Trysorlys a'r diwydiant yswiriant i geisio gwarantau a fydd yn rhoi'r hyder sydd ei angen ar ddarparwyr yswiriant i sicrhau bod yswiriant cynhyrchu ar gael."

# Dyfeisiau a gwasanaethau teledu

## Cyflwyniad

Er mai teledu yw'r brif ddyfais o hyd ar gyfer darparu gwasanaethau adloniant i gartrefi pobl, mae'r ystod o wasanaethau, a'r llwyfannau y cânt eu darparu arnynt, wedi tyfu'n gyflym dros y blynyddoedd diwethaf.

Llwyfannau traddodiadol fel Freeview, sydd ar gael drwy deledu daearol digidol (DTT), lloeren – naill ai gan Sky neu Freesat – a chebl (Virgin Media) yw'r prif ddarparwyr yn yr ardal hon o hyd.

Mae'r llwyfannau hyn yn dibynnu ar wahanol seilwaith i ddarparu eu gwasanaethau. Mae Freeview yn defnyddio rhwydwaith o drosglwyddyddion ledled Cymru i ddarparu gwasanaethau teledu i gartrefi pobl drwy erial ar ben y to. Mae'r gwasanaethau hyn ar gael yn eang, ond ddim i bawb ledled Cymru. Mae lloeren ar gael yn gyffredinol[5] ond dim ond mewn ardaloedd trefol adeiledig y mae darpariaeth cebl ar gael.

Fodd bynnag, hanes y blynyddoedd diwethaf fu'r cynnydd cyflym mewn gwasanaethau tanysgrifio i fideo ar-alw newydd fel Netflix ac Amazon Prime Video, a gafodd gymorth drwy ledaenu a gwella cyflymder rhwydweithiau band eang. Er bod y gwasanaethau tanysgrifio i fideo ar-alw hyn fel rheol yn cael eu prynu yn ychwanegol at lwyfannau eraill, maent yn tarfu'n sylweddol ar y sector, gan ennill cwsmeriaid newydd ac effeithio ar sut a phryd mae pobl yn gwylio cynnwys tebyg i deledu.

Mae darlledwyr gwasanaethau cyhoeddus traddodiadol hefyd yn addasu sut maent yn darparu cynnwys i wylwyr. Ochr yn ochr â'u gwasanaethau teledu llinol, mae gan y BBC, ITV, Channel 4, S4C a Channel 5 eu gwasanaethau fideo ar-alw darlledwr eu hunain. Mae'r gwasanaethau fideo ar-alw hyn drwy danysgrifiad a gan ddarlledwyr yn cael eu darparu dros y rhyngrwyd ac mae modd cael gafael arnynt drwy setiau teledu cysylltiedig yn ogystal ag ar ffonau symudol a thabledi.

## Llwyfannau teledu traddodiadol

### Mae mwy o gartrefi yng Nghymru yn defnyddio gwasanaeth teledu drwy dalu nag yn dibynnu ar Freeview neu Freesat

Mae setiau teledu wedi hen ennill eu lle yn ein cartrefi; roedd gan fwy na naw aelwyd o bob deg yng Nghymru (94.5%) set deledu ar ddechrau 2020.[6] Ond mae'r gwasanaethau sy'n cael eu defnyddio ar ein setiau teledu yn newid, yn bennaf oherwydd faint o gynnwys sy'n cael ei ddarparu a'r modd mae cael gafael arno drwy'r rhyngrwyd.


Roedd gwasanaethau teledu traddodiadol y telir amdanynt fel lloeren (Sky yn bennaf) a gwasanaethau cebl (Virgin Media) yn bresennol mewn ychydig llai na hanner cartrefi Cymru (46%) ddechrau 2020. Mae lloeren y telir amdano yn cynrychioli'r rhan fwyaf o'r rhain, gyda gwasanaeth cebl Virgin Media yn bresennol mewn dim ond 7% o gartrefi Cymru, i lawr o 8.1% yn Ch1 2019.

[5] Yn seiliedig ar a oes llwybr llinell weledol i'r lloeren ar gael
[6] Arolwg Sefydlu BARB Ch1 2020

Gwasanaethau teledu daearol digidol yn unig (a ddarperir drwy erial) sy'n cynrychioli'r rhan fwyaf o wylio teledu am ddim (34%) gyda lloeren am ddim yn bresennol mewn dim ond 8.8% o gartrefi, drwy Freesat mae'n debyg. Roedd gan bedwar deg dau y cant o gartrefi deledu daearol digidol neu loeren am ddim yn unig.

Dim ond cyfran fach o gartrefi yng Nghymru (6%) oedd â gwasanaeth teledu protocol rhyngrwyd (IPTV). Caiff y rhain eu darparu drwy flychau pen-set gan ddarparwyr gan gynnwys TalkTalk a BT, ac maent yn cynnig gwasanaeth Freeview ochr yn ochr â sianeli teledu drwy dalu sy'n cael eu darparu drwy gysylltiad rhyngrwyd.

**Ffigur 3: Y nifer sy'n defnyddio llwyfannau teledu yng Nghymru**




*Ffynhonnell: Arolwg Sefydlu BARB Ch1 2020*

# Llwyfannau teledu ar-lein

## Mae gan dros hanner cartrefi Cymru deledu sydd wedi ei gysylltu â'r rhyngrwyd

Yn yr un modd â gwledydd eraill y DU, mae'r nifer sy'n tanysgrifio i wasanaethau fideo ar-alw (SVoD) gan ddarparwyr fel Netflix ac Amazon Prime Video, a ddarperir dros y rhyngrwyd, yn dal i gynyddu'n gyflym ymysg cartrefi yng Nghymru.

Roedd gan tua 79% o gartrefi gysylltiad band eang llinell sefydlog ddechrau 2020 ac roedd gan 59% o gartrefi deledu wedi'i gysylltu â'r rhyngrwyd, naill ai drwy deledu clyfar neu drwy ddefnyddio



dyfeisiau fel ffyn ffrydio (ee Amazon Fire, Roku a Google Chromecast).[7]

## Mae bron i hanner y cartrefi'n defnyddio Netflix

Roedd dros hanner y cartrefi (54%) wedi tanysgrifio i un neu fwy o'r gwasanaethau ar-lein y telir amdanynt ddechrau 2020. Netflix oedd y mwyaf poblogaidd o'u plith ac roedd mewn tua hanner o'r cartrefi (47%), ac roedd Amazon Prime Video mewn tua chwarter o'r cartrefi (25%). Mae llawer iawn o bobl hefyd yn gwylio'r gwasanaethau hyn ar ddyfeisiau ar wahân i deledu, fel ffonau clyfar a thabledi.

A bydd y gystadleuaeth am wylwyr, gan a rhwng y chwaraewyr ar-lein hyn y telir amdanynt, yn cynyddu gyda gwasanaethau uchel eu proffil yn cael eu lansio gan Apple (Apple TV+), Disney (Disney+) a BBC/ITV (BritBox) yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.





*Ffynhonnell: Arolwg Sefydlu BARB Ch1 2020*

## Mae chwaraewyr ar-lein gan ddarlledwyr traddodiadol hefyd yn boblogaidd

Mae gan ddarlledwyr mawr – y BBC, ITV, Channel 4, S4C a Channel 5 – eu chwaraewyr ar-lein eu hunain. Mae chwaraewyr fideo ar-alw y darlledwyr hyn hefyd yn boblogaidd ymysg gwylwyr. Cafodd y mwyaf poblogaidd, BBC iPlayer, ei wylio yn hanner cartrefi Cymru (50%) ddechrau 2020. ITV Hub (38%) yw'r chwaraewr gwasanaeth fideo ar-alw darlledwr mwyaf poblogaidd nesaf, ac wedyn All4 (28%) a My5 (23%).

[7] Traciwr Technoleg 2020 Ofcom

**Ffigur 4: Defnyddio gwasanaethau fideo ar-alw'r prif ddarlledwyr yng Nghymru (cartrefi)**




*Ffynhonnell: Traciwr Technoleg Ofcom 2020*

### Clic S4C

Mae S4C wedi datblygu ei chwaraewr dal i fyny ar-lein sef Clic i fod yn gartref i amrywiaeth eang o gynnwys Cymraeg. Ar hyn o bryd mae'r sianel yn cynnal chwe sianel ar-lein gan gynnwys rhai ar gyfer plant, pobl ifanc ac oedolion iau yn ogystal â sianel yn benodol i ddysgwyr. Mae Clic hefyd yn rhoi mynediad at nifer o gyfresi o archif S4C, gan gynnwys cyfresi drama a dramau Ewropeaidd gydag is-deitlau ar ei sianel Walter Presents.

## Mae bron i hanner cartrefi Cymru'n defnyddio YouTube

Roedd ymchwil a gynhaliwyd ar gyfer adroddiad Ein Gwlad Ar-lein 2020 Ofcom[8] yn dangos bod gwylwyr yn treulio cryn dipyn o amser yn gwylio cynnwys fideo ar-lein ar safleoedd fel YouTube. A dweud y gwir, mae traean o oedolion (32%) ledled y DU sy'n dweud eu bod yn treulio mwy o amser yn gwylio fideos ar y rhyngrwyd nag ydynt yn gwylio teledu byw (heb gynnwys gwylio gwasanaeth fideo ar-alw darlledwr neu raglenni wedi'u recordio),




[8] Ofcom, Ein Gwlad Ar-lein, 2020.

gan godi i 57% ymysg pobl ifanc 18-24 oed.[9] Roedd bron i hanner cartrefi (48%) Cymru wedi defnyddio YouTube i wylio rhaglenni, ffilmiau neu fideos eraill ddechrau 2020.[10]

[9] Ymchwil ar lwyfannau rhannu fideo yn 2020 (oedolion), Ofcom
[10] Traciwr Technoleg 2020 Ofcom

# Gwylio teledu wedi'i ddarlledu

## Cyflwyniad

Mae pobl yn y DU yn dal i dreulio oriau’n gwylio’r teledu bob dydd, ond dros y degawd diwethaf mae gwasanaethau newydd a ffyrdd newydd o wylio wedi esblygu, wedi’u sbarduno’n bennaf gan rwydweithiau band eang gwell a gwasanaethau ar-alw newydd sy’n cael eu darparu dros y rhyngrwyd. Mae’r gallu i wylwyr wylio’r hyn maen nhw ei eisiau ei wylio pan maen nhw eisiau ei wylio, drwy chwaraewyr ar-lein gan y BBC, ITV, Channel 4, S4C ac eraill wedi bod yn arbennig o boblogaidd ymysg pobl iau. Mae ffrwd Twitter eofn S4C Hansh yn denu cynulleidfa iau o lawer na'r sianel linol.

Mae cael setiau teledu y gellir eu cysylltu â’r rhyngrwyd hefyd wedi paratoi’r ffordd i chwaraewyr byd-eang mawr fel Netflix, Amazon Prime Video ac eraill lansio gwasanaethau tanysgrifio i fideo ar-alw newydd mewn marchnadoedd ledled y byd, gan gynnig mwy fyth o ddewis i wylwyr a mwy o gystadleuaeth i ddarlledwyr domestig.

Mae canlyniadau’r dirwedd deledu hon sy’n fwy tameidiog i’w gweld drwy’r bennod hon ar *Wylio Teledu wedi’i Ddarlledu*. Roedd gwylio teledu sy’n cael ei ddarlledu’n ddyddiol yng Nghymru wedi disgyn eto yn 2019 ond mae’n dal yn sylweddol ar gyfartaledd o 3 awr 21 munud y dydd. Mae faint o amser sy’n cael ei dreulio’n gwylio cynnwys arall fel gwasanaethau tanysgrifio i fideo ar-alw wedi cynyddu, er ei fod yn dal i fod yn weddol fach o’i gymharu.

Mae llawer iawn o bobl yn dal i wylio rhaglenni teledu poblogaidd iawn: roedd rhifyn Nadolig *Gavin and Stacey* wedi denu dros filiwn o wylwyr yng Nghymru, a gemau rygbi Cymru oedd pedair o’r pum rhaglen fwyaf poblogaidd. Mewn mannau eraill, mae ymchwil Ofcom ar Gael Gafael ar Newyddion yn tanlinellu pwysigrwydd darlledu gwasanaeth cyhoeddus: BBC One ac ITV yw’r ddwy ffynhonnell newyddion fwyaf poblogaidd o hyd i bobl Cymru.

## O ble daw ein data

Mae data am wylio sgrin a’r dadansoddiad yn yr adran hon yn defnyddio data sy'n cael ei ddarparu gan Fwrdd Ymchwil Cynulleidfaoedd y Darlledwyr (BARB), panel cynrychioladol cenedlaethol o 5,300 o gartrefi ledled y DU (gyda dros 400 o gartrefi yng Nghymru) sy'n darparu'r mesuriadau teledu a ddarlledir swyddogol ar gyfer y diwydiant. Mae hyn yn cynnwys yr holl wylio teledu a ddarlledir drwy set deledu, a drwy unrhyw ddyfais sydd ynghlwm wrth y teledu fel cyfrifiadur, dyfais ffrydio neu flwch pen-set.

Oni nodir fel arall, mae’r ffigurau a nodir ar gyfer gwylio wedi’i gyfuno dros saith niwrnod ar set deledu. Mae gwylio wedi'i gyfuno'n cynnwys gwylio rhaglenni ar yr adeg maen nhw'n cael eu darlledu ar y teledu (gwylio byw) yn ogystal ag o recordiadau ar recordwyr fideo digidol (DVRs) a drwy wasanaethau chwaraewyr dal-i-fyny (ee apiau ar setiau teledu clyfar) hyd at saith niwrnod ar ôl y darllediad cyntaf (gwylio'n ddiweddarach).


Mae’r data sydd wedi’u cynnwys yn yr adran hon ar gyfer blwyddyn galendr 2019 – cyn-Covid – ac nid ydynt yn adlewyrchu’r patrymau gwylio gwahanol o’r cyfnod hwnnw, a amlinellir mewn mannau eraill yn yr adroddiad hwn.

## Mae pobl yng Nghymru, ynghyd â’r rheini yn yr Alban, yn gwylio mwy o deledu sy’n cael ei ddarlledu bob dydd na chyfartaledd y DU

Ar gyfartaledd, roedd pobl yng Nghymru wedi gwylio 3 awr 21 munud o deledu wedi'i ddarlledu bob dydd ar set deledu yn 2019. Mae hyn yn ostyngiad o 13 munud ar 2018 ac yn fwy nag awr yn llai nag ar ddechrau’r degawd.

Gostyngodd y gwylio dyddiol yng Nghymru 6.1% rhwng 2018 a 2019, o’i gymharu â chyfartaledd y DU sef 4.9%. Cymru welodd y gostyngiad mwyaf mewn gwylio dyddiol o blith holl wledydd y DU.

**Ffigur 5: Swm cyfartalog y munudau gwylio y dydd, y pen, yn ôl gwlad:** 2010-2019





*Ffynhonnell: BARB. Ardaloedd y BBC, pob unigolyn (4+).*

## Mae gwylwyr hŷn yn codi'r cyfartaledd sy'n gwylio teledu sy'n cael ei ddarlledu yng Nghymru

Wrth edrych ar arferion gwylio gwahanol grwpiau oed yng Nghymru, gwelwn fod pobl hŷn yn gwylio mwy o deledu wedi'i ddarlledu na gwylwyr iau.

Yn 2019, gwyliodd pobl dros 54 oed 5 awr 36 munud y pen ar gyfartaledd, a oedd wedi gostwng i 3 awr 35 munud ar gyfer y grŵp oedran 45-54. Mewn cyferbyniad, roedd plant 4-15 oed yn gwylio ychydig dros awr (67 munud) ar gyfartaledd bob dydd.




Roedd gwylio ymysg pobl ifanc 16-24 oed a phlant 4-15 oed wedi disgyn 18% – y gostyngiad mwyaf ar y cyd o ran canran. Roedd gwylio ymysg pobl dros 54 oed wedi disgyn 4% yn unig ers 2018.[11]

## Pennod arbennig *Gavin and Stacey* ar gyfer y Nadolig oedd y rhaglen a gafodd y nifer uchaf o wylwyr yng Nghymru yn 2019

*Gavin and Stacey* – a oedd yn dychwelyd ar ôl seibiant o naw mlynedd – oedd rhaglen fwyaf poblogaidd 2019. Cafodd y rhaglen gyfran uwch o'r gynulleidfa na rhaglen fwyaf poblogaidd 2018 (*I'm a Celebrity - Get Me Out of Here!*), gyda dros 1.2 miliwn o wylwyr. Roedd rygbi yn dominyddu gweddill y safleoedd, gyda gemau Rygbi'r Chwe Gwlad a Chwpan Rygbi'r yn llenwi pedwar o'r pum prif safle.

**Ffigur 6: Yr 20 rhaglen a gafodd eu gwylio fwyaf yng Nghymru:** 2019

| Safle | Teitl y Rhaglen | Sianel | Dyddiad | Cyfartaledd (miloedd) | Cyfran % |
|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Gavin And Stacey | BBC One | 25/12/2019 | 1,286 | 66.1 |
| 2 | Rygbi'r Chwe Gwlad: Cymru v Iwerddon | BBC One | 16/03/2019 | 933 | 82.7 |
| 3 | Rygbi'r Chwe Gwlad: Cymru v Lloegr | BBC One | 23/02/2019 | 778 | 70.1 |
| 4 | Cwpan Rygbi'r Byd 2019 | ITV Cymru Wales | 27/10/2019 | 742 | 80.2 |
| 5 | Rygbi'r Chwe Gwlad: Cymru v Ffrainc | BBC One | 01/02/2019 | 724 | 50.1 |

[11] *Ffynhonnell: BARB. Ardal BBC Cymru, pob unigolyn (4+).*

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 6 | I'm A Celebrity Get Me Out Of Here! | ITV Cymru Wales | 17/11/2019 | 700 | 49.0 |
| 7 | Rygbi'r Chwe Gwlad: Alban v Cymru | BBC One | 09/03/2019 | 638 | 72.2 |
| 8 | Britain's Got Talent | ITV Cymru Wales | 13/04/2019 | 618 | 50.9 |
| 9 | Rygbi'r Chwe Gwlad yn Fyw 2019 | ITV Cymru Wales | 09/02/2019 | 612 | 57.3 |
| 10 | Mrs Brown's Boys | BBC One | 01/01/2019 | 575 | 48.1 |
| 11 | Strictly Come Dancing | BBC One | 14/12/2019 | 562 | 48.6 |
| 12 | His Dark Materials | BBC One | 03/11/2019 | 534 | 40.0 |
| 13 | Cleaning Up | ITV Cymru Wales | 09/01/2019 | 531 | 38.3 |
| 14 | Seven Worlds, One Planet | BBC One | 03/11/2019 | 528 | 44.3 |
| 15 | Death In Paradise | BBC One | 10/01/2019 | 525 | 38.1 |
| 16 | Coronation Street | ITV Cymru Wales | 16/01/2019 | 519 | 41.2 |
| 17 | Line Of Duty | BBC One | 05/05/2019 | 516 | 42.5 |
| 18 | Manhunt | ITV Cymru Wales | 07/01/2019 | 513 | 37.9 |
| 19 | Call The Midwife | BBC One | 13/01/2019 | 510 | 32.7 |
| 20 | Vera | ITV Cymru Wales | 27/01/2019 | 496 | 33.8 |


*Ffynhonnell: BARB. Ardal BBC Cymru, pob unigolyn (4+)*

## Wrth i'r niferoedd sy'n gwylio'n fyw barhau i ostwng yn 2019, roedd gwylio'n ddiweddarach a gwylio anhysbys yn cynyddu

Yn yr un modd â gweddill y DU, er bod pobl yng Nghymru yn gwylio llai o deledu wedi'i ddarlledu nag o'r blaen, maen nhw'n treulio mwy o amser yn gwylio pethau eraill ar eu setiau teledu. Roedd gwylio gwasanaethau nad ydyn nhw'n cael eu darlledu ar setiau teledu (sy'n cael eu galw'n 'gwylio anhysbys' gan yr asiantaeth mesur BARB ac sy'n cynnwys gwasanaethau ffrydio, megis Netflix, Amazon Prime Video, YouTube a chwarae gemau) wedi cynyddu pum munud y pen y dydd yn 2019, i 58 munud.

Yn gyffredinol, mae'r amser a dreulir ar y set deledu wedi gostwng chwe munud ers 2018. Mae'r amser a dreulir yn gwylio teledu dal i fyny a gwylio wedi'i recordio hyd at saith niwrnod ar ôl darlledu wedi aros yn sefydlog (31 munud yn 2018 a 2019).

**Ffigur 7: Nifer gyfartalog y munudau bob dydd o amser sgrin teledu y pen yng Nghymru**




*Ffynhonnell: BARB. Ardaloedd y BBC, pob unigolyn (4+). Munudau o deledu sy'n cael eu gwylio bob dydd ar gyfartaledd.*
**Gwylio anhysbys = teledu sy'n cael ei ddefnyddio ond nad oes modd ei gysylltu â sain na'i adnabod mewn unrhyw fodd arall. Mae'n cynnwys chwarae gemau, gwylio DVDs, gwasanaethau tanysgrifio fideo ar-alw, YouTube, gwylio'n ddiweddarach ar ôl 28 diwrnod, apiau ar deledu clyfar a llywio o amgylch Cyfeiryddion Rhaglenni Electronig (EPG guides) lle nad oes llun o'r cynnwys sy'n cael ei ddarlledu. Nid yw gorsafoedd radio digidol lle mae'r sain yn cael ei gysylltu wedi'u cynnwys. **Cynnwys darlledwyr eraill = cynnwys sy'n cael ei wylio ar wasanaethau fideo ar-alw darlledwyr a gwasanaethau fideo ar-alw sy'n cael eu mesur nad yw wedi cael ei ddarlledu ar sianeli teledu llinol. Er enghraifft, rhaglenni sydd ar gael ar wasanaeth fideo ar-alw darlledwr yn unig a chyfresi hanesyddol. Nodyn: cafodd hyn ei gynnwys mewn gwylio anhysbys yn adroddiadau blaenorol Ofcom.*

### Beth yw darlledu gwasanaeth cyhoeddus?


Mae darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn cael ei ddarparu yng Nghymru gan y BBC, ITV (sy'n dal trwydded Channel 3 yng Nghymru), S4C, Channel 4 Corporation (C4C) a Channel 5. Er bod holl wasanaethau teledu'r BBC ac S4C yn rhai darlledu gwasanaeth cyhoeddus, dim ond prif sianeli'r darlledwyr eraill sydd yn rhai darlledu gwasanaeth cyhoeddus. Yn gyfnewid am ddarparu gwasanaethau darlledu gwasanaeth cyhoeddus fel newyddion a chynyrchiadau gwreiddiol, mae'r darlledwyr hyn yn cael manteision penodol: mynediad i sbectrwm (y tonnau radio gwerthfawr sy'n cynnal cyfathrebu di-wifr) er mwyn darlledu eu gwasanaethau; amlygrwydd ar gyfeiryddion rhaglenni electronig ar deledu; ac, yn achos y BBC ac S4C, cyllid o ffi'r drwydded.

## Mae'r pum prif sianel darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn cynrychioli dros hanner o gyfanswm y gwylio teledu

Gyda'i gilydd roedd y prif sianeli'n cynrychioli cyfran o 51.7% o gyfanswm cynulleidfa teledu a gafodd ei ddarlledu yng Nghymru yn 2019. Yn yr un modd â 2018, mae'r gyfran o'r gynulleidfa yn uwch nag yng Ngogledd Iwerddon a Lloegr, ond ychydig yn is nag yn yr Alban.

BBC One oedd â'r gyfran uchaf o'r gynulleidfa o blith unrhyw sianel darlledu gwasanaeth cyhoeddus unigol ar 21.5%; roedd hyn yn uwch na chyfran BBC One yn y gwledydd eraill.

**Ffigur 8: Cyfran ganrannol o gyfanswm gwylio teledu yng ngwledydd y DU ar gyfer y pum prif sianel darlledu gwasanaeth cyhoeddus: 2019**





*Ffynhonnell: BARB. Ardaloedd y BBC, pob unigolyn (4+). Nid yw'n cynnwys unrhyw sianeli +1 awr.*

## Mae bwletinau newyddion BBC One Wales ac ITV Cymru Wales yn gynnar min nos yn parhau i ddenu cyfran is yng Nghymru na'r sianeli cyfatebol yn y gwledydd datganoledig eraill

Roedd y nifer a oedd yn gwylio *Wales Today*, bwletin newyddion BBC One Wales yn gynnar min nos, wedi gostwng o 26.9% o'r gyfran gwylio ar gyfer y slot yng Nghymru yn 2018 i 25.5% yn 2019. Roedd hyn yn is na'r rhaglenni newyddion cyfatebol yn gynnar min nos yn yr Alban a Gogledd Iwerddon, ac yn is na chyfartaledd y DU ar gyfer bwletin newyddion y BBC yn gynnar min nos (29.3%). Roedd cyfran gwylio rhaglen gyfatebol ITV Cymru Wales sef *Wales at Six* wedi disgyn o 22.2% yn 2018 i 21.7% yn 2019.

**Ffigur 9**: **% cyfran cynulleidfa newyddion BBC One Wales ac ITV Cymru Wales yn gynnar min nos: 2019**




*Ffynhonnell: BARB. Pob unigolyn (dros 4 oed). Nodyn: Ffigurau bwletinau newyddion ('lleol') yn gynnar min nos ar sail rhaglenni genre 'newyddion rhanbarthol' BARB, yn dechrau rhwng 17:55 a 18:35 ac yn para 10 munud neu fwy, o ddydd Llun i ddydd Gwener ac yn cynnwys y sianeli HD a +1 lle y bo'n berthnasol. Caiff bwletin newyddion BBC One yn gynnar min nos, Wales Today, ei ddarlledu rhwng 18:30 a 19:00 ac mae'n seiliedig ar ardaloedd y BBC. Mae bwletin newyddion ITV Cymru Wales, Wales at Six, yn cael ei ddarlledu rhwng 18:00 a 18:30 ac mae'n seiliedig ar ardaloedd ITV.*

## Sgrin Fach: Trafodaeth Fawr

Mae Ofcom wedi lansio *Sgrîn Fach: Trafodaeth Fawr* i ofyn am syniadau ac i ysgogi trafodaeth ynghylch sut i wneud yn siŵr bod gan y DU system darlledu gwasanaeth cyhoeddus gadarn sy'n parhau i ddiwallu anghenion y gynulleidfa. I gefnogi hyn, ym mis Chwefror 2020 fe wnaethom gyhoeddi adolygiad pum mlynedd o ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus rhwng 2014 a 2018.

Ddiwedd 2019, cynhaliodd Ofcom ddigwyddiad yng Nghaerdydd i gasglu barn y diwydiant a chynulleidfaoedd am ddyfodol darlledu gwasanaeth cyhoeddus. Rydym wedi parhau i ymgysylltu ynghylch y pwnc hwn yn ystod pandemig Covid-19, gyda chyfres o gyfarfodydd gyda'r sector darlledu yng Nghymru dros y misoedd diwethaf.

Fel rhan o sgwrs genedlaethol *Sgrîn Fach: Trafodaeth Fawr* Ofcom, cynhaliodd Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu Senedd Cymru sesiwn yn trafod dyfodol darlledu gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru ym mis Tachwedd 2019. Roedd Kevin Bakhurst, Cyfarwyddwr Grŵp Polisi Cynnwys a'r Cyfryngau Ofcom, wedi amlinellu'r heriau sy'n wynebu darlledwyr yng Nghymru, gan gynnwys pwysigrwydd amlygrwydd a chynnwys Cymraeg. Roedd Aelodau Pwyllgor Cynghori Cymru Ofcom


hefyd wedi cyflwyno tystiolaeth, ynghyd ag academyddion o Brifysgol De Cymru, Prifysgol Caerdydd, a chynrychiolwyr o'r sector cynhyrchu annibynnol.

Bydd cyfle arall i fwydo i'r prosiect hwn yn ystod yr ymgynghoriad a fydd yn cael ei gyhoeddi ar wefan *Sgrîn Fach: Trafodaeth Fawr* yn nes ymlaen yn y flwyddyn.

## Sianeli teledu yw'r ffynonellau newyddion a ddefnyddir fwyaf gan bobl yng Nghymru

Yn 2020 mae dwy ran o dair o oedolion Cymru yn defnyddio BBC One ar gyfer newyddion, mae hanner yn defnyddio ITV a dau o bob pump yn defnyddio Facebook. Mae'r nifer sy'n defnyddio Instagram a BBC Radio Wales/Cymru wedi cynyddu ers y llynedd.

**Ffigur 10: 20 ffynhonnell newyddion uchaf yn gyffredinol yng Nghymru: 2020**




| 2019 | 2018 |
|---|---|
| 57% | 68% |
| 45% | 45% |
| 38% | 35% |
| 28% | 26% |
| 8% | 6% |
| 15% | 14% |
| 20% | 15% |
| 18% | 22% |
| 11% | 12% |
| 14% | 19% |
| 14% | 14% |
| 8% | 14% |
| 11% | 13% |
| 7% | 7% |
| 4% | 10% |
| 7% | 7% |
| 7% | 13% |
| 15% | 8% |
| 13% | 10% |
| 4% | 5% |


*Ffynhonnell: Arolwg Ofcom ar Gael Gafael ar Newyddion 2020. Sail: Pob oedolyn 16+ yng Nghymru – 2020=456, 2019=475, 2018=458. Mae trionglau gwyrdd/coch yn dangos gwahaniaethau ystadegol arwyddocaol rhwng 2020 a 2019.*

## Oedolion yng Nghymru a'r Alban sydd fwyaf tebygol o ddweud bod ganddynt 'ddiddordeb mawr' mewn newyddion am eu gwlad

Mae gan y bobl sy'n byw yng Nghymru gryn ddiddordeb mewn newyddion am Gymru. Dywed dros hanner yr oedolion sy'n dilyn newyddion fod ganddynt 'ddiddordeb mawr' mewn newyddion am Gymru (55%) a bod y ffigur hwnnw'n codi i 91% wrth edrych ar bobl sydd â diddordeb 'mawr' neu 'ganolig'.

Fel y dangosir yn Ffigur 11, mae ymatebion pobl sy'n honni bod ganddynt 'ddiddordeb mawr' mewn newyddion am eu gwlad yn fwy yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon nag yn Lloegr.

**Ffigur 11: Lefel y diddordeb mewn newyddion am eu gwlad, yn ôl gwlad**




*Ffynhonnell: Arolwg Ofcom ar Gael Gafael ar Newyddion 2020. Sail: Pob oedolyn 16+ sy'n dilyn newyddion yn 2020/2019 - Cyfanswm=4379/4524 Lloegr=3082/3150, Yr Alban=526/544, Cymru=420/435, Gogledd Iwerddon=351/395. Mae trionglau gwyrdd/coch yn dangos gwahaniaethau ystadegol arwyddocaol rhwng 2020 a 2019.*

## BBC One yw'r ffynhonnell newyddion a ddefnyddir fwyaf am Gymru

I gael newyddion am eu gwlad eu hunain, teledu yw'r ffynhonnell fwyaf poblogaidd i bobl yng Nghymru. BBC One ac ITV Wales yw'r ffynonellau newyddion mwyaf poblogaidd a'r ail fwyaf poblogaidd ar gyfer y wlad, ac wedyn Facebook a BBC Radio Wales / Cymru. Mae papurau newydd hefyd yn dal yn ffynhonnell newyddion bwysig; mae papurau lleol a rhanbarthol ymhlith y ffynonellau newyddion a ddefnyddir amlaf.

**Ffigur 12: Ffynonellau sydd wedi'u defnyddio i gael gafael ar newyddion am eu gwlad: 2020**

| Lloegr | % | Yr Alban | % | Cymru | % | Gogledd Iwerddon | % |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| BBC One | 38% | STV | 34% ↓ | BBC One | 51% | UTV | 47% |
| ITV | 24% | BBC One* | 24% ↓ | ITV WALES | 33% | BBC One | 46% |
| Facebook | 15% | BBC Scotland* | 18% | Facebook | 19% | Facebook | 21% |
| Gwefan/ap y BBC | 7% | Facebook | 17% | BBC Radio Wales/Cymru | 8% ↑ | BBC Radio Ulster/Foyle | 16% |
| Twitter | 4% | Gwefan/ap y BBC | 10% | Papur newydd dyddiol lleol | 6% | Cool FM | 15% |
| Gorsaf radio leol/ranbarthol y BBC | 4% | Radio masnachol lleol Bauer | 9% | Gwefan/ap y BBC | 5% | Gwefan/ap y BBC | 8% ↑ |
| Google (peiriant chwilio) | 4% | Twitter | 6% | South Wales Echo | 5% ↓ | Sianeli RTE / Virgin Media One | 7% |
| Sianel Sky News | 4% | The Daily Record | 5% | The Western Mail | 4% | Twitter | 7% |
| | | Google (peiriant chwilio) | 5% | Gwefan/ap newyddion yng Nghymru | 4% | The Belfast Telegraph | 6% |
| | | BBC Radio Scotland | 4% | | | Google (peiriant chwilio) | 5% |
| | | BBC One / BBC Scotland NET | 39% | | | Unrhyw wefan/ap newyddion yng Ngogledd Iwerddon | 5% ↑ |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | Gorsaf radio masnachol leol | 4% |
| Ddim yn dilyn newyddion y wlad | 5% ↓ | Ddim yn dilyn newyddion y wlad | 1% ↓ | Ddim yn dilyn newyddion y wlad | 3% ↓ | Ddim yn dilyn newyddion y wlad | 2% |


*Ffynhonnell: Arolwg Ofcom ar Gael Gafael ar Newyddion 2020. Sail: Pob oedolyn 16+ sy'n defnyddio Teledu/Papurau Newydd/Radio/Y Rhyngrwyd/ Cylchgronau ar gyfer newyddion – Lloegr=3032, Yr Alban=521, Cymru=415, Gogledd Iwerddon=346. Dim ond y ffynonellau sydd â nifer o 4%+ ym mhob Gwlad a ddangosir. Mae ↑ a ↓ yn dangos gwahaniaethau ystadegol arwyddocaol rhwng 2020 a 2019. *Roedd BBC Scotland yn newydd eleni. Mae'n bosibl y bydd dryswch ymatebwyr ynghylch brand BBC Scotland wedi effeithio ar ffigurau BBC Scotland a BBC One Scotland.*

## Roedd cyrhaeddiad S4C wedi cynyddu yn 2019

Roedd cyrhaeddiad y darlledwr Cymraeg S4C yng Nghymru ac ar draws y DU wedi tyfu yn 2019. Ar draws y DU roedd y sianel wedi cyrraedd dros hanner miliwn o wylwyr, a oedd 9.7% yn uwch na 2018.


Mewn wythnos arferol yn ystod 2019, roedd 306,000 o wylwyr yng Nghymru wedi gwylio S4C ar y teledu am o leiaf dri munud yn olynol.

**Ffigur 13: Cyrhaeddiad wythnosol cyfartalog (miloedd) S4C - unigolion:** 2010-2019




*Ffynhonnell: BARB. Unigolion (4+). Cyfanswm ardal S4C a rhwydwaith S4C. Meini prawf cyrhaeddiad: Dros 3 munud yn olynol, defnyddiwyd wythnosau llawn.*

## Barn gwylwyr yng Nghymru am y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus





*Ffynhonnell: Traciwr Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus Ofcom 2019*

Roedd tri chwarter (75%) y gwylwyr darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn fodlon â'r ddarpariaeth darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn 2019, roedd hyn yn debyg i lefel 2018 (74%). Roedd hyn yn cymharu â 68% yn yr Alban, 73% yn Lloegr a 76% yng Ngogledd Iwerddon.[12]

Wrth edrych ar ddarpariaeth newyddion yn benodol ar gyfer Cymru, roedd gwylwyr yng Nghymru o'r farn bod ITV Cymru Wales a BBC One yn debyg iawn, yn yr un modd â 2018 (69% a 68% y naill a'r llall), ond roeddent yn sgorio'r holl sianeli gyda'i gilydd ychydig yn is (62%). Mae'r sgoriau hyn yn weddol debyg i sgoriau'r gwledydd eraill.[13]

**Ffigur 14: Darpariaeth newyddion o safon uchel yn y wlad, yn ôl darparwr (sgôr 7-10)**




*Ffynhonnell: Traciwr PSB Ofcom 2019. C16- I ba raddau y mae'r sianel yn cael sgôr o 7-10 allan o 10 mewn perthynas â'r datganiad canlynol: Mae ei rhaglenni newyddion rhanbarthol yn darparu amrywiaeth eang o newyddion o ansawdd da am fy ardal. Sail ar gyfer sianeli unigol: Gwylwyr ym mhob un o'r gwledydd sy'n cofnodi eu hunain (BBC One = DU: 2062; Lloegr: 1443; Yr Alban: 208; Cymru: 214; Gogledd Iwerddon: 197), (ITV1 = DU: 1774; Lloegr: 1224; Yr Alban: 173; Cymru: 188; Gogledd Iwerddon: 189). Sail ar gyfer 'Pob sianel gyda'i gilydd': Pob ymatebydd sy'n gwylio unrhyw sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus ar unrhyw adeg ymhob gwlad (DU: 2993; Lloegr: 2103; Yr Alban: 303; Cymru: 294; Gogledd Iwerddon: 293).*

Yng Nghymru, mae tri o bob pump (61%) o wylwyr rheolaidd darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn rhoi sgôr ffafriol i sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus (7-10) am *'ddangos gwahanol rannau o'r DU, gan gynnwys Cymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban'*, o gymharu â Lloegr (59%), Gogledd Iwerddon (63%) a'r Alban (56%).[14]

Roedd tua hanner (49%) yr ymatebwyr yng Nghymru wedi rhoi sgôr 7-10 am y datganiad *'mae'n portreadu fy rhanbarth/gwlad yn deg i weddill y DU'*. Mae hyn yn debyg i Loegr (50%), yr Alban (46%) a Gogledd Iwerddon (53%).[15]

Roedd bron i dri o bob pump (58%) wedi rhoi sgôr uchel am y datganiad *'mae ei rhaglenni'n dangos gwahanol fathau o ddiwylliannau yn y DU'* o gymharu â'r Alban (55%), Lloegr (62%) a Gogledd Iwerddon (65%).[16]

---

[12] Traciwr Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus Ofcom 2019
[13] Traciwr Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus Ofcom 2019
[14] Traciwr Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus Ofcom 2019
[15] Traciwr Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus Ofcom 2019
[16] Traciwr Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus Ofcom 2019

# Rhaglenni teledu ar gyfer Cymru ac o Gymru

## Cyflwyniad

Mae'r BBC ac ITV yn darparu rhaglenni'n benodol i wylwyr yng Nghymru ar draws amrywiaeth o genres, ond yn fwyaf arbennig rhaglenni newyddion a materion cyfoes. S4C yw'r darlledwr Cymraeg, ac mae'n comisiynu cynnwys i'w ddosbarthu ar ei sianel deledu linol ac amrywiaeth o lwyfannau digidol.

### S4C – Sianel Pedwar Cymru

Cafodd S4C ei sefydlu yn 1982 yn dilyn blynyddoedd lawer o ymgyrchu am wasanaeth teledu Cymraeg penodol. Roedd darparu amrywiaeth eang o raglenni yn ystod yr oriau brig yn plesio siaradwyr Cymraeg, ond roedd hefyd yn plesio'r di-Gymraeg a oedd eisiau tynnu'r allbwn Cymraeg oddi ar BBC One Cymru Wales ac ITV Cymru Wales. Yn yr un modd â Channel Four, roedd S4C yn ddarlledwr-gyhoeddwr; arweiniodd hyn at dwf y sector cynhyrchu annibynnol yng Nghymru. Tan 2011 S4C oedd cartref y rhan fwyaf o allbwn Channel Four yng Nghymru ond fe ddaeth yn wasanaeth cwbl Gymraeg ar ôl gorffen newid i'r digidol.

Ar hyn o bryd mae S4C yn derbyn £74.5m o ffi'r drwydded, £6.85m gan yr Adran dros faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon a swm bach o incwm masnachol. Yn dilyn argymhellion adolygiad annibynnol a noddwyd gan y Llywodraeth yn 2019, bydd holl gyllid S4C, a fydd yn cael ei bennu gan yr Ysgrifennydd Gwladol yn yr Adran dros faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, yn dod o ffi'r drwydded o 2021-22 ymlaen.

Yn 2019, gwelwyd gostyngiad o 2% i £33.5m yng ngwariant y BBC ac ITV Cymru, gyda'i gilydd, ar raglenni i Gymru. Y BBC sy'n dal i gyfrannu'r rhan fwyaf o'r gwariant ar gynnwys sy'n cael ei ddangos am y tro cyntaf i Gymru, gan wario £27.4m, ac ITV Cymru Wales yn cyfrannu'r £6.1m sy'n weddill.

Cynhyrchodd y BBC 629 awr o raglenni lleol yn 2019, ychydig yn uwch na'r flwyddyn flaenorol, a chynhyrchodd ITV 332 awr o raglenni lleol, ychydig yn llai nag yn 2018.

Mae Cymru hefyd yn ffynhonnell gynhyrchu bwysig ar gyfer cynnwys darlledu gwasanaeth cyhoeddus a ddangosir ledled y DU, gydag oddeutu 4% o wariant rhwydwaith cymwys ar sianeli rhwydwaith y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn cael ei wario ar gynyrchiadau yng Nghymru yn 2019.

### BBC Cymru Wales yn symud i'r Sgwâr Canolog

Dechreuwyd darlledu'n barhaus o bencadlys newydd y BBC yn Sgwâr Canolog Caerdydd ar 14 Gorffennaf. Roedd y darllediad cyntaf gan dîm Cyflwyno Teledu BBC Cymru Wales yn garreg filltir bwysig. Y bwriad yw y bydd yr holl wasanaethau byw wedi gorffen symud o safle Llandaf erbyn hydref 2020. Mae symud i'r Sgwâr Canolog yn rhan hanfodol o strategaeth BBC Cymru i foderneiddio ac adnewyddu BBC Cymru, ac i sicrhau ei fod yn gwasanaethu pob cynulleidfa ledled Cymru.

Bydd y Sgwâr Canolog yn agored i'r cyhoedd ac amrywiaeth eang o bartneriaid yn y sector creadigol. Bydd yr adeilad yn cynnig amryw o brofiadau dysgu, yn enwedig i bobl iau sy'n gobeithio gweithio yn y diwydiannau creadigol. Y Sgwâr Canolog fydd y ganolfan ddarlledu gyntaf yn y byd i gael craidd IP Byw hefyd. Mae hyn yn golygu y bydd ganddi'r dechnoleg ddiweddaraf o blith holl ganolfannau darlledu'r DU.

### Sut rydym yn adrodd ar wariant ar raglenni


Mae'r dadansoddiad yn yr adran hon yn ymdrin â rhaglenni sy'n cael eu gwneud yng Nghymru ar gyfer gwylwyr yng Nghymru yn ogystal â rhaglenni sy'n cael eu gwneud yn y wlad a'u darlledu ar draws y DU. Mae'n canolbwyntio ar gynnwys gwreiddiol o'r DU i'w ddarlledu am y tro cyntaf, sef rhaglenni a gomisiynir gan sianel gwasanaeth cyhoeddus drwyddedig, neu ar ei chyfer, gyda'r bwriad o'u dangos am y tro cyntaf ar deledu yn y DU yn y flwyddyn gyfeirio.

Mae gwariant ar y cynnwys hwn yn cynnwys yr holl gostau a wynebir gan y darlledwr sy'n gysylltiedig â chreu rhaglenni. Mae'r rhain yn cynnwys costau cynhyrchu uniongyrchol ac anuniongyrchol ar gyfer cynyrchiadau mewnol a chostau trwyddedu ar gyfer rhaglenni a gomisiynir, ond nid yw'n cynnwys costau sy'n gysylltiedig â marchnata a dosbarthu. Mae'r ffigurau gwariant mewn termau real, sy'n golygu eu bod wedi'u haddasu ar gyfer chwyddiant gan ddefnyddio'r mynegai prisiau defnyddwyr (CPI) ac yn cael eu rhestru yn nhelerau 2018.

## Roedd gwariant BBC Cymru Wales ac ITV Cymru Wales, gyda'i gilydd, ar raglenni i Gymru wedi disgyn 2% yn 2019

Roedd y gwariant ar newyddion – sef £10.8m – a oedd yn cynrychioli 32% o'r holl wariant ar raglenni gan y BBC ac ITV yng Nghymru, ychydig yn uwch nag yn 2018. Roedd y gwariant ar raglenni materion cyfoes a rhaglenni eraill ychydig yn is na'r flwyddyn flaenorol.

**Ffigur 15: Gwariant darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ar gynnwys gwreiddiol o'r DU sy'n cael ei ddangos am y tro cyntaf ar gyfer Cymru, yn ôl genre (£m)**





*Ffynhonnell: Ofcom/darlledwyr. Nodyn: Mae'r ffigurau wedi cael eu mynegi yn ôl prisiau 2019. Ddim yn cynnwys gwariant ar allbwn S4C.*

## Roedd BBC Cymru Wales ac ITV Cymru Wales wedi gwario ychydig yn llai ar raglenni nad oeddent ar gyfer y rhwydwaith i Gymru yn 2019

Mae BBC Cymru Wales yn parhau i fod yn gyfrifol am gyfran sylweddol o'r gwariant ar gynnwys sy'n cael ei ddangos am y tro cyntaf ar gyfer Cymru, ac roedd y ffigur hwnnw wedi aros yn sefydlog gyda'r gwariant yn 2019 yn £27.4m, ychydig yn is na 2018 mewn termau real.

Mae gwariant ITV Cymru Wales ar gynnwys sy'n cael ei ddangos am y tro cyntaf ar gyfer Cymru hefyd wedi aros yn gymharol sefydlog, gan ostwng 5% i £6.1m. Er gwaethaf y gostyngiad hwn, mae lefelau buddsoddiad ITV Cymru Wales ar gyfer rhaglenni yng Nghymru wedi bod yn uwch na £6m ers 2009.

**Ffigur 16: Gwariant y BBC ac ITV Cymru ar gynnwys gwreiddiol o'r DU sy'n cael ei ddangos am y tro cyntaf heb fod ar y rhwydwaith ar gyfer Cymru (£m)**




*Ffynhonnell: Ofcom/darlledwyr. Nodyn: Mae'r ffigurau wedi cael eu mynegi yn ôl prisiau 2019. Ddim yn cynnwys gwariant ar allbwn S4C.*

### Gofynion / ymrwymiadau rhaglenni lleol

Mae'n ofynnol bod ITV a'r BBC yn cynhyrchu rhaglenni ar gyfer gwylwyr yng Nghymru.

O dan delerau ei drwydded, a gafodd ei hadnewyddu ar 1 Ionawr 2015 am ddeng mlynedd, mae'n rhaid i ITV Cymru Wales ddarparu nifer sylfaenol o raglenni sydd "o ddiddordeb arbennig" i'r bobl sy'n byw yng Nghymru. Bydd hyn yn cael ei wneud drwy'r cwotâu ar gyfer newyddion a rhaglenni heb fod yn rhaglenni newyddion/materion cyfoes.

Mae'r cwotâu hyn yn mynnu bod ITV yn cynhyrchu 4 awr o newyddion ac 1 awr 30 munud yr wythnos o raglenni rhanbarthol nad ydynt yn rhaglenni newyddion. Rhaid i 47 munud o'r rhaglenni hyn fod yn rhaglenni materion cyfoes.

Rhaid i BBC Cymru Wales, drwy ei drwydded weithredu a ddaeth i rym ar 1 Ionawr 2018, hefyd gyflawni'r amodau rheoleiddio sy'n benodol i Gymru.

Ymysg pethau eraill, mae'r drwydded weithredu hon yn datgan bod yn rhaid i'r BBC, ym mhob blwyddyn ariannol, sicrhau:


- mewn perthynas â BBC One Cymru Wales, bod o leiaf 275 awr yn cael ei neilltuo ar gyfer rhaglenni newyddion a materion cyfoes; a bod o leiaf 65 awr yn cael eu neilltuo i raglenni heb fod yn newyddion;
- mewn perthynas â BBC Two Cymru Wales, bod o leiaf 175 awr yn cael ei neilltuo ar gyfer rhaglenni heb fod yn newyddion;
- mewn perthynas â BBC One Cymru Wales a BBC Two Cymru Wales gyda'i gilydd, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau eu bod yn darparu amrywiaeth o genres yn eu rhaglenni sy'n adlewyrchu diwylliant Cymru.

## Roedd oriau cyffredinol BBC o gynnwys gwreiddiol o'r DU sy'n cael ei ddangos am y tro cyntaf yng Nghymru wedi codi yn 2019

Roedd cyfanswm oriau cynnwys y BBC a oedd yn cael ei ddangos am y tro cyntaf ar gyfer Cymru wedi codi i 629 yn 2019, roedd hyn 14 awr yn uwch a dyma oedd yr allbwn uchaf ers 2013.

Er bod oriau rhaglenni materion cyfoes a newyddion wedi aros yn weddol sefydlog, mae rhaglenni mewn amrywiaeth o genres eraill wedi arwain at y cynnydd mewn oriau sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf gan y BBC yng Nghymru. Roedd cynnwys nad oedd yn newyddion/materion cyfoes wedi codi 6% i 249 awr. Rhaglenni newyddion yw dros hanner (53%) y cynnwys sy'n cael ei ddangos am y tro cyntaf gan y BBC ar gyfer Cymru.

**Ffigur 17: Oriau'r BBC o gynnwys gwreiddiol o'r DU sy'n cael ei ddangos am y tro cyntaf ar gyfer Cymru, yn ôl genre**




*Ffynhonnell: Ofcom/darlledwyr.*

### BBC Cymru Wales

Mae BBC Cymru Wales wedi cyhoeddi bod angen iddo arbed £4.5m yn ystod 2020/21. Mae hyn yn dilyn cyhoeddiad y Cyfarwyddwr Cyffredinol ym mis Ebrill y byddai angen i'r BBC arbed £125m eleni, oherwydd effaith y coronafeirws ac i adlewyrchu'r arbedion parhaus y mae'n rhaid i'r BBC eu cyflawni. Disgwylir i'r arbedion olygu colli tua 60 aelod o staff yng Nghymru. Bydd rhagor o fanylion am y cynigion yn cael eu cyhoeddi yn hydref 2020. Cyn pandemig y coronafeirws, roedd gan y BBC 24% yn llai ar gael i'w wario ar wasanaethau cyhoeddus y DU na phetai ffi'r drwydded wedi codi gyda chwyddiant ers 2010. Mae gan y sefydliad £800m o arbedion parhaus i'w gwneud yn ogystal â'r diffyg ychwanegol o £125m y mae angen ei dalu oherwydd effaith y coronafeirws.


## Roedd oriau ITV Cymru Wales o raglenni sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf yng Nghymru wedi aros yn gyson yn 2019

Ar ôl i oriau 2018 gyrraedd y lefel uchaf o allbwn ers 2008, mae'r gostyngiad bach o 3% mewn oriau ers y llynedd yn golygu bod 2019 yn dychwelyd i'r lefelau cyfartalog dros y cyfnod.

Mae'r mwyafrif helaeth o oriau ITV Cymru Wales sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf ar gyfer Cymru yn rhaglenni newyddion, sy'n cynrychioli 77% o'r allbwn. Mae'r rhan fwyaf o amrywiadau o un flwyddyn i'r llall o ganlyniad i newidiadau mewn rhaglenni newyddion.

Mae'r oriau o gynnwys materion cyfoes a genres eraill wedi aros yn gyson dros y blynyddoedd diwethaf.

**Ffigur 18: Oriau'r ITV o gynnwys gwreiddiol o'r DU sy'n cael ei ddangos am y tro cyntaf ar gyfer Cymru, yn ôl genre**





*Ffynhonnell: Ofcom/darlledwyr.*

## Gwariodd S4C £72.8m ar raglenni a gomisiynwyd ac a ddarlledwyd am y tro cynaf yn 2019-20, ar draws wyth genre gwahanol

Roedd y rhan fwyaf o'r gwariant wedi mynd ar raglenni ffeithiol cyffredinol (£20m) ac yna dramâu (£15m), a oedd yn cynnwys ychydig llai na hanner cyfanswm gwariant S4C ar raglenni comisiwn sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf, sy'n cyd-fynd â dosbarthiad y gwariant dros y blynyddoedd diwethaf.

Mae llawer o wariant hefyd ar chwaraeon (£13m), gyda'r gweddill yn ariannu cynnwys ar draws rhaglenni materion cyfoes, plant, cerddoriaeth, adloniant, y celfyddydau a chrefydd.

**Ffigur 19: Gwariant S4C ar gomisiynau a ddangoswyd am y tro cyntaf: 2019-20 (£m)**




*Ffynhonnell: Ofcom/darlledwyr. Nodyn: Mae'r ffigurau wedi cael eu mynegi yn ôl prisiau 2019*

**Datganoli darlledu**

Ddechrau 2020, cyn pandemig Covid-19, prif ffocws Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu Senedd Cymru oedd ei ymchwiliad i a ddylid datganoli rheoleiddio darlledu i Gymru. Ar hyn o bryd mae darlledu yn fater a gedwir yn ôl i Lywodraeth y DU, ond mae'n fater sy'n cael ei godi'n aml yng Nghymru.

Roedd yr ymchwiliad 'Datganoli Darlledu' yn gofyn cwestiynau am lywodraethu a chyllido darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru a'r newidiadau i sut mae cynulleidfaoedd yn defnyddio'r cyfryngau mewn byd sy'n mynd yn fwy digidol. Roedd yr ymchwiliad yn gofyn yn benodol am swyddogaethau rheoleiddio Ofcom hefyd.

Cynhaliodd y Pwyllgor nifer o sesiynau tystiolaeth gyda rhanddeiliaid, gan gynnwys sesiwn gweithdy, ar nifer o themâu allweddol. Roedd y rhain yn cynnwys darpariaeth newyddion a materion cyfoes; cynnwys mewn oes ddigidol; cynnwys Cymraeg; gwahaniaethau rheoleiddiol; a dyfodol darlledu.


Pan holodd y Pwyllgor am farn y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, roeddent yn niwtral ynghylch datganoli darlledu. Ond mae eraill fel Cymdeithas yr Iaith, grŵp lobïo dros y Gymraeg, o blaid datganoli'r cyfrifoldeb. Mae'r ymchwiliad bellach wedi dod i ben, a bydd y Pwyllgor yn cyhoeddi ei gasgliadau a'i argymhellion yn nes ymlaen yn 2020.

## Cynnwys rhwydwaith a gynhyrchwyd yng Nghymru

Mae'n rhaid i ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus wneud rhaglenni sy'n cael eu darlledu am y tro cyntaf ar eu sianeli teledu rhwydwaith mewn amrywiaeth o lefydd o amgylch y DU ar wahân i Lundain. Mae gan y darlledwyr gwotâu sy'n ymwneud â hyn, o ran cyfran yr oriau cymwys a chyfran y gwariant cymwys sy'n gorfod bod y tu allan i Lundain. Mae gan y BBC gwotâu unigol ar gyfer pob un o wledydd y DU ac mae gan Channel 4 gwota 'tu allan i Loegr' hefyd. Nid oes gofyniad penodol i ITV a Channel 5 gynhyrchu cynnwys y tu allan i Loegr.

Ymysg yr holl ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, cafodd 4% o'r gwariant rhwydwaith cymwys ar raglenni sy'n cael eu darlledu am y tro cyntaf ei neilltuo i raglenni sy'n cymhwyso fel cynyrchiadau yng Nghymru, a 3% o'r oriau. Mae cyfran y gwariant cymwys yng Nghymru wedi bod yn cynyddu, o ganlyniad i'r BBC yn bennaf.

**Ffigur 20: Cyfran yr oriau rhwydwaith a'r gwariant cymwys y tu allan i Lundain, pob un o'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus gyda'i gilydd: 2015-2019**




*Ffynhonnell: Darlledwyr / Ofcom*

## Roedd cyfran y gwariant rhwydwaith gan y BBC yng Nghymru wedi cyrraedd ei lefel uchaf ers pum mlynedd yn 2019

Cynyddodd y BBC gyfran ei wariant rhwydwaith a'i oriau o raglenni a wnaed yng Nghymru yn 2019. Caerdydd yw cartref cyfresi drama *Casualty* a *Doctor Who* y BBC – cyfresi sy'n dychwelyd ac yn rhedeg ers tro; yn 2019 cafodd cyfres gyntaf *His Dark Materials*, a gynhyrchwyd gan Bad Wolf, ei gwneud yng Nghymru hefyd. Yn 2019, roedd amrywiaeth o raglenni adloniant ffeithiol a ddarlledwyd ar wasanaethau'r BBC, Channel 4 a Channel 5 yn cymhwyso fel cynyrchiadau yng Nghymru, gan gynnwys *Extreme Cakemakers* ar Channel 4 a chyfres o deitlau a gomisiynwyd gan Boomerang Productions ar gyfer Channel 5.

**Ffigur 21: Cyfran y cynyrchiadau rhwydwaith cymwys yng Nghymru, yn ôl darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus: 2015-2019**

| | | 2015 | 2016 | 2017 | 2018 | 2019 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Y BBC | Gwariant (%) | 7.1 | 5.8 | 6.7 | 6.3 | 8.2 |
| | Oriau (%) | 4.9 | 4.3 | 4.4 | 4.6 | 5.4 |
| ITV | Gwariant (%) | 0.3 | 0.1 | 0.01 | 0.01 | 0.1 |
| | Oriau (%) | 0.1 | 0.1 | 0.1 | 0.1 | 0.1 |
| Channel 4 | Gwariant (%) | 2.0 | 2.8 | 2.2 | 3.4 | 2.4 |
| | Oriau (%) | 2.6 | 2.4 | 2.7 | 4.2 | 4.6 |
| Channel 5 | Gwariant (%) | 0 | 0.3 | 0.4 | 0.2 | 1.4 |
| | Oriau (%) | 0.1 | 0.4 | 0.5 | 0.2 | 0.5 |

Ffynhonnell: Darlledwyr / Ofcom.

# Astudiaeth achos

## Gwylio gorgyffwrdd teledu daearol yng Nghymru

Mae'r ymatebion gwahanol gan lywodraethau yn y DU i'r pandemig Covid-19 wedi tynnu sylw at faterion sy'n ymwneud â pherthnasedd a chywirdeb gwybodaeth a dderbynnir gan ddinasyddion yng Nghymru. Mae hyn yn rhannol gysylltiedig ag adroddiadau rhaglenni newyddion rhwydwaith y DU nad yw'n ystyried y ffaith nad yw llawer o gyhoeddiadau a wneir gan Lywodraeth y DU yn berthnasol yng Nghymru, yr Alban na Gogledd Iwerddon. Ond mae a wnelo hefyd â'r ffaith nad oes gan rai pobl yng Nghymru fynediad at wasanaethau newyddion teledu sy'n berthnasol i Gymru.

### Cefndir

Mae diffyg argaeledd gwasanaethau teledu sy'n rhoi gwybodaeth sy'n berthnasol i Gymru wastad wedi bod yn broblem yn ardaloedd dwyreiniol Cymru ar hyd y ffin â Lloegr. I lawer o gartrefi yn yr ardaloedd hyn, y rheswm am hyn yw mai o drosglwyddyddion yn Lloegr y daw'r unig wasanaethau daearol digidol sydd ar gael. I eraill, mae hyn oherwydd nad yw'r ystod lawn o wasanaethau Freeview ar gael ar drosglwyddyddion trosglwyddo lleol sy'n cynnal rhaglenni ar gyfer Cymru, felly mae aelwydydd yn dewis cael mwy o amrywiaeth o raglenni o Loegr, ac felly'n colli'r cyfle i gael rhaglenni ar gyfer Cymru. Mae gan rai gwylwyr yn Wrecsam, er enghraifft, ddewis rhwng derbyn tua 27 o wasanaethau gan drosglwyddydd trosglwyddo yng Nghymru, neu dros 90 o wasanaethau rhaglenni gan brif drosglwyddydd yn Lloegr. Dim ond i ddefnyddwyr Freeview y mae hyn yn berthnasol; nid yw'n broblem i'r eiddo hynny sy'n derbyn gwasanaethau lloeren neu gebl.

Yn hanesyddol, mae sawl rheswm pam y byddai rhai gwylwyr yng Nghymru yn dewis gwasanaethau o Loegr yn hytrach na rhai o Gymru. Efallai fod nifer o ffactorau wedi dylanwadu ar ddewisiadau gwylwyr. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Twf sylweddol rhaglenni Cymraeg yn y 1970au. Cafodd rhaglenni Cymraeg eu darlledu ar y BBC ac ITV yng Nghymru ar gyfnodau prysur a dewisodd llawer o wylwyr di-Gymraeg dderbyn gwasanaethau o Loegr lle'r oedd hynny'n bosibl.
- Roedd creu S4C yn 1982 yn rhoi gwasanaeth gwell i siaradwyr Cymraeg ar un sianel ac yn dileu rhaglenni Cymraeg o BBC Wales ac ITV Wales. Ond gyda'r bedwaredd sianel yng Nghymru wedi'i dyrannu i S4C a oedd yn defnyddio'r Gymraeg yn bennaf, roedd rhai gwylwyr eisiau cael gwasanaeth Channel 4 yn lle hynny, a oedd ond yn cael ei ddarlledu o drosglwyddyddion yn Lloegr.
- Channel Five. Pan ddechreuodd y gwasanaeth hwn ddiwedd y 1990au, nid oedd yn bosibl ei dderbyn mewn sawl rhan o'r DU, gan gynnwys ardaloedd yng Nghymru. Fodd bynnag, roedd gwylwyr mewn sawl ardal ar y ffin yn gallu derbyn y gwasanaeth gan drosglwyddyddion yn Lloegr.

Yn dilyn datganoli yn 1999, dwyshawyd y ddadl ynghylch y mater hwn a chynyddwyd ei arwyddocâd. Yn gyffredinol, nid yw llawer o feysydd cyfrifoldebau Llywodraeth Cymru, gan gynnwys iechyd, addysg, yr economi a thrafnidiaeth, yn cael eu hadrodd yn rhaglenni newyddion rhwydwaith y DU (na bwletinau newyddion lleol ar gyfer Lloegr), ac mae hyn, ynghyd â diffyg gwasg frodorol

sylweddol yng Nghymru, wedi arwain at godi pryderon am y goblygiadau ar ddinasyddiaeth a chynhwysiant democrataidd i’r gwylwyr hynny yng Nghymru sy’n derbyn gwasanaethau o Loegr.

Yn 2007, comisiynodd Ofcom Ymchwil Beaufort i asesu maint y mater hwn a’i ganlyniadau i’r gwylwyr hynny sy’n derbyn gwasanaethau gan drosglwyddyddion yn Lloegr. Canfu’r adroddiad, *TV Overlap Viewing in Wales* fod tua 7.5% o boblogaeth Cymru yn byw mewn ‘ardaloedd gorgyffwrdd’ lle mae modd cael gwasanaethau teledu sy’n cael eu darlledu o Gymru a Lloegr. O’r 1.4 miliwn o aelwydydd yng Nghymru amcangyfrifir bod 42.7% yn gallu cael signalau gan drosglwyddyddion yn Lloegr. Canfu’r ymchwil fod cyfran o wylwyr yn yr ardaloedd hyn yn derbyn amrywiadau rhanbarthol yn Lloegr ar BBC One, BBC Two ac ITV1 yn hytrach na gwasanaethau’r BBC ac ITV ar gyfer Cymru. O ganlyniad, nid yw’r gwylwyr hyn yn cael gafael ar newyddion, materion cyfoes a rhaglenni eraill sy’n cael eu cynhyrchu’n benodol ar gyfer gwylwyr yng Nghymru. Mae rhwng 1.5% a 3% o aelwydydd ond yn gallu derbyn gwasanaethau gan drosglwyddyddion yn Lloegr yn unig.




Canfu’r adroddiad hefyd nad oedd y rhan fwyaf o’r aelwydydd hynny heb fynediad at raglenni o Gymru “yn cael gwybodaeth dda iawn am ddigwyddiadau yng Nghymru y tu allan i’w hardal ac yn teimlo eu bod wedi cael colled o ganlyniad”. Cyfaddefodd gwylwyr yn yr aelwydydd hyn hefyd fod ganddynt wybodaeth isel neu ddim gwybodaeth o gwbl am waith a pholisïau Cynulliad Cenedlaethol Cymru, fel y galwyd ar y pryd. Cyfaddefodd ymatebwyr eu bod yn cael gwell gwybodaeth am yr hyn a oedd yn digwydd yn San Steffan nag yng Nghaerdydd a bod hyn yn effeithio ar eu tebygolrwydd o bleidleisio mewn etholiadau ar gyfer y Cynulliad Cenedlaethol.

## Darpariaeth

Mae pedwar trosglwyddydd pwerus o Loegr ger ffiniau Cymru. Mae Winter Hill yn darparu gwasanaethau teledu ar gyfer gogledd-orllewin Lloegr, ond gall ei signal gyrraedd ardaloedd arfordirol gogledd-ddwyrain Cymru, rhannau o ochr ddwyreiniol Ynys Môn, ardal Glannau Dyfrdwy a threfi fel yr Wyddgrug a Wrecsam yn y gogledd-ddwyrain. Mae trosglwyddydd Wrekin yn gwasanaethu Gorllewin Canolbarth Lloegr, ond gellir cael gwasanaethau o’r safle hwn hefyd yn Wrecsam a ffiniau gogledd-ddwyrain Cymru. Ymhellach i’r de, gellir derbyn gwasanaethau gan drosglwyddydd Ridge Hill yn y Drenewydd a rhai trefi ar y ffin yn Sir Fynwy, gan gynnwys y Fenni. Hefyd, mae grŵp o drosglwyddyddion bach sy’n gwasanaethu cymunedau ymylol Llanandras, Trefyclo, Cnwclas a signalau cyfnewid Garth Hill o Ridge Hill oherwydd, o ganlyniad i'r dirwedd leol, nid oes modd cael ffrwd oddi ar yr awyr o drosglwyddydd yng Nghymru. Gall gwylwyr ar stribed arfordirol de-ddwyrain Cymru ac mewn rhannau o gymoedd de-ddwyrain Cymru dderbyn gwasanaethau gan drosglwyddydd Mendip yng ngorllewin Lloegr.

Mae'r materion sy'n ymwneud â gwylio'n gorgyffwrdd yn effeithio ar y llwyfan daearol digidol yn unig. Mae gwasanaethau teledu cebl a lloeren yng Nghymru eisoes yn rhoi digon o amlygrwydd i'r sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus (PSB) sy'n cael eu darlledu yng Nghymru, BBC One Wales, BBC Two Wales, ITV1 Wales ac S4C. Er enghraifft, mae cartrefi lloeren digidol sy'n tanysgrifio i Sky Digital yng Nghymru yn derbyn BBC One Wales yn awtomatig fel y prif wasanaeth BBC One diofyn (ar sianel 101) fel y mae gwylwyr i Virgin Media Services, er bod Channel Four yn defnyddio'r slot 104 ar Virgin Media ar hyn o bryd yn hytrach nag S4C sydd ar 166.

### Ffigur 22: Darpariaeth gwasanaethau teledu daearol darlledu gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru

| DTT craidd 3PSB yng Nghymru | Nifer yr aelwydydd | % aelwydydd |
|---|---|---|
| Cyfanswm aelwydydd | 1,408,486 | 100% |
| Darpariaeth o unrhyw drosglwyddydd | 1,377,987 | 97.8% |
| Darpariaeth o drosglwyddyddion yn Lloegr | 601,991 | 42.7% |
| Darpariaeth gan drosglwyddyddion yng Nghymru [17] | 1,331,674 | 94.5% |
| Darpariaeth gan drosglwyddyddion yng Nghymru 95% amser | 1,356,104 | 96.3% |
| Darpariaeth o drosglwyddyddion yn Lloegr yn unig | 46,313 | 3.3% |
| Darpariaeth o drosglwyddyddion yn Lloegr yn unig 95% o'r amser | 21,883 | 1.6% |

****

I'r gwylwyr hynny sy'n byw mewn ardaloedd lle mai dim ond signalau o Loegr sydd ar gael, yr opsiwn mwyaf hyfyw os ydynt yn dymuno cael gwasanaethau o Gymru yw newid o dderbyniad daearol i loeren, ond nid oes rheswm dros gredu bod hyn yn cael ei ddeall yn eang. Mae holl wasanaethau darlledu gwasanaeth cyhoeddus Cymru (a llawer o sianeli eraill) ar gael am ddim drwy loeren. Er bod cost gosod ac offer untro, does dim tanysgrifiad misol parhaus yn daladwy.[18]

[17] Yn cynnwys y trosglwyddydd Storeton (Cymru), sydd yn Lloegr, ond sy'n darlledu rhaglenni i Gymru i ardaloedd arfordirol Gogledd-Ddwyrain Cymru

[18] Ceir rhagor o wybodaeth am wasanaethau lloeren am darlledu am ddim yn https://www.freesat.co.uk neu https://www.sky.com/shop/freesat/home/.

# Radio a sain

## Cyflwyniad

Mae radio yn parhau i fod yn boblogaidd gyda phobl yng Nghymru, gyda bron i naw oedolyn o bob deg yn gwrando bob wythnos. Ochr yn ochr â gwylio sgrin deledu a gweithgareddau ar-lein, mae radio yn dal i gyfrif am gryn dipyn o amser sy’n cael ei dreulio ar wasanaethau adloniant, gyda gwrandawyr yn gwrando am dros 20 awr yr wythnos ar gyfartaledd.

Mae gwasanaethau’r BBC yn fwy poblogaidd yng Nghymru nag mewn unrhyw ran arall o’r DU, gyda Radio 2 yn cadw ei safle fel yr orsaf y gwrandewir arni fwyaf ledled Cymru.

Mae hon wedi bod yn flwyddyn bwysig i wrando’n ddigidol yng Nghymru. Roedd gwrando digidol – drwy radio DAB, DTT ac ar-lein (gan gynnwys seinyddion clyfar) – yn cyfrif am 52% o’r holl wrando yn Ch1 2020, ar ôl cymryd gormod o wrandawyr analog yn Ch2 2019 am y tro cyntaf.


Daw’r ffigurau gwrando ar radio yn yr adran hon o Ch1 2020 a dim ond cyfran fach o gyfnod cyfyngiadau symud Covid-19 sy’n berthnasol. Fel y soniwyd yn gynharach yn yr adroddiad hwn, roedd gan orsafoedd radio ran allweddol yn y gwaith o roi’r wybodaeth ddiweddaraf i bobl yn ystod misoedd prysuraf cyfyngiadau symud mis Ebrill, mis Mai a mis Mehefin.

## Gwrando ar y radio yng Nghymru

### Ar gyfartaledd, roedd ychydig o dan naw oedolyn o bob deg yn gwrando ar y radio bob wythnos yng Nghymru yn Ch1 2020

Roedd 87.5% oedolyn yn gwrando ar y radio bob wythnos yng Nghymru yn Ch1 2020, ac am gyfartaledd o ychydig o dan 21 awr yr wythnos, maen nhw’n gwrando am gyfnodau hirach nag oedolion yn unrhyw un o wledydd eraill y DU.

**Ffigur 23: Oriau gwrando a chyrhaeddiad wythnosol cyfartalog**





*Ffynhonnell: RAJAR, Pob oedolyn (15+), Ch1 2020. Lloegr = BBC Radio Lleol yn TSA Lloegr; Yr Alban = TSA BBC Radio Scotland; Cymru = TSA Radio BBC Cymru Wales; Gogledd Iwerddon = TSA BBC Radio Ulster. Caiff cyrhaeddiad ei ddiffinio fel canran poblogaeth oedolion yr ardal sy'n gwrando ar orsaf am o leiaf bum munud mewn wythnos arferol.*

## Mae gwasanaethau rhwydwaith y DU yn cynrychioli bron i hanner yr holl wrando ar y radio yng Nghymru

Radio'r BBC oedd â'r gyfran fwyaf o oriau gwrando yng Nghymru (58%), tra roedd 41% o'r gwrando ar orsafoedd masnachol. Fodd bynnag, roedd cyfran y BBC o wrando ar radio yn bennaf yn gwrando ar ei orsafoedd ar draws y DU – Radio 1, 2, 3, 4 ac ati. Roedd gorsafoedd y BBC ledled y DU yn cyfrif am 49% o gyfanswm y gwrando gyda gwledydd/radio lleol y BBC yn 9% o gyfanswm y gwrando. Roedd gan orsafoedd y BBC ledled y DU gyfran uwch o wrando yng Nghymru nag mewn unrhyw wlad arall yn y DU.

**Ffigur 24: Cyfran o'r oriau gwrando, yn ôl gwlad**





*Ffynhonnell: RAJAR, pob oedolyn (15+), Ch1 2020. Lloegr = BBC Radio Lleol yn TSA Lloegr; Yr Alban = TSA BBC Radio Scotland; Cymru = TSA Radio BBC Cymru Wales; Gogledd Iwerddon = TSA BBC Radio Ulster.*

## Roedd gwasanaethau'r BBC yn cyfrif am dros hanner y gwrando ar y radio yn Ch1 2020

Er bod gwasanaethau'r BBC yn cyfrif am dros hanner yr holl wrando ar radio yng Nghymru (58%), roedd Global a Communicatorp, sy'n gweithredu rhwydweithiau Capital, Heart a Smooth yng Nghymru, yn cyfrif am 22% o wrando. Yn y cyfamser, cymerodd Bauer, sy'n berchen ar Swansea Sound a The Wave 96.4, 9% o'r gwrando yn Ch1.

Ym mis Mai 2020, cyhoeddodd Bauer y byddai Swansea Sound a The Wave 96.4 (a brynwyd gan Bauer o Wireless) yn dod yn rhan o Rwydwaith Greatest Hits Radio De Cymru. Bydd Greatest Hits Radio De Cymru yn cadw ei raglenni Cymraeg, yn ogystal â newyddion lleol, gwybodaeth a theithio. Bydd gwasanaeth newydd Bauer hefyd ar gael ar DAB ymhellach i ffwrdd, gan gynnwys yng Nghaerdydd am y tro cyntaf.

**Ffigur 25: Y gyfran o'r gwrando yng Nghymru, yn ôl grŵp radio**




*Ffynhonnell: RAJAR, Pob oedolyn (15+), Ch1 2020, BBC Radio Wales TSA*

**Sioe radio gyntaf o bencadlys newydd BBC Cymru Wales**

Cynhaliwyd y rhaglen radio gyntaf i'w darlledu o bencadlys newydd BBC Cymru Wales yng nghanol dinas Caerdydd ddiwedd mis Gorffennaf. Aeth BBC Radio Cymru 2 yn fyw o'r Sgwâr Canolog am 7am ar 25 Gorffennaf. Cyn hynny, roedd Radio Cymru wedi bod yn darlledu o safle Llandaf y BBC ers iddo gael ei lansio dros 43 mlynedd yn ôl.

## BBC Radio 2 oedd yr orsaf radio fwyaf poblogaidd ar draws Cymru yn Ch1 2020

BBC Radio 2 oedd yr orsaf radio y gwrandawyd arni fwyaf yng Nghymru yn Ch1 2020 gyda chyrhaeddiad wythnosol o 34% ymysg oedolion 15 oed a hŷn. Roedd gorsafoedd y BBC yn gyfrifol am y graddfeydd cyrhaeddiad ym mhob rhan o Gymru heblaw am ardal Caerdydd, lle mai Heart South Wales oedd yr ail orsaf fwyaf poblogaidd.

**Ffigur 26: Y tair prif orsaf radio, yn ôl rhanbarth**

| | DU | | Cymru* | | Caerdydd** | | Gogledd Cymru*** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Safle** | **Gorsaf** | **Cyrhaeddiad wythnosol (%)** | **Gorsaf** | **Cyrhaeddiad wythnosol (%)** | **Gorsaf** | **Cyrhaeddiad wythnosol (%)** | **Gorsaf** | **Cyrhaeddiad wythnosol (%)** |
| **1** | BBC Radio 2 | 26% | BBC Radio 2 | 34% | BBC Radio 2 | 34% | BBC Radio 2 | 37% |
| **2** | BBC Radio 4 | 20% | BBC Radio 1 | 21% | Heart South Wales | 20% | BBC Radio 4 | 23% |
| **3** | BBC Radio 1 | 16% | BBC Radio 4 | 17% | BBC Radio 1 | 18% | BBC Radio 1 | 22% |

*Ffynhonnell: RAJAR, Pob oedolyn 15+, Ch1 2020. * TSA BBC Radio Wales ** TSA Capital South Wales *** TSA Heart North Wales.*

### Radio Cymunedol yng Nghymru

Mae gorsafoedd radio cymunedol yn gwasanaethu cymunedau daearyddol (o fewn pum cilometr fel arfer) a chymunedau o ddiddordeb. Nid ydynt yn gwneud elw, maent yn eiddo ac yn cael eu gweithredu gan y cymunedau y maent yn eu gwasanaethu, ac maent yn adlewyrchu anghenion a diddordebau eu cynulleidfaoedd. Maent hefyd yn creu cysylltiadau uniongyrchol â’u gwrandawyr, yn cynnig cyfleoedd hyfforddi ac yn sicrhau bod aelodau o’r gymuned yn gallu cymryd rhan yn y ffordd y caiff y gorsafoedd eu rhedeg.

Ar hyn o bryd mae 11 gorsaf radio cymunedol drwyddedig yng Nghymru. Mae naw gorsaf, Calon FM, Tudno FM, BRfm, Radio Tircoed, Môn FM, Radio Cardiff, Rhondda Radio, Bro Radio a GTFM eisoes ar yr awyr, gyda Radio Aber a Merthyr Radio yn gobeithio dechrau darlledu cyn bo hir.


Mae gorsafoedd radio cymunedol wedi rhoi llais cysurlon i filoedd o bobl yn ystod yr argyfwng iechyd cyhoeddus parhaus hwn yng Nghymru, ond mae llawer wedi wynebu anawsterau ariannol difrifol. Er mwyn ymateb i hynny, cyhoeddodd Llywodraeth y DU gyllid mewn argyfwng er mwyn eu helpu i dalu am gostau darparu rhaglenni hollbwysig i gymunedau lleol.

Ym mis Mai, fe wnaeth Panel y Gronfa Radio Cymunedol, sy’n gweithredu’n annibynnol ar Ofcom, ddyfarnu grantiau i bron i draean y gorsafoedd yn y DU, cyfanswm o £333,125. Ym mis Gorffennaf, mae Ofcom wedi ailagor y cyfnod ceisiadau er mwyn dyfarnu'r cyllid sy’n weddill.

## Cerddoriaeth yw’r prif reswm dros wrando ar y radio

Cerddoriaeth ydy'r math o gynnwys sy’n cael ei werthfawrogi fwyaf gan wrandawyr ar draws Cymru, wedi’i ddilyn gan newyddion cenedlaethol - yr un fath ag yn y DU drwyddi draw. Y tywydd yw’r trydydd math o gynnwys sy’n cael ei werthfawrogi fwyaf, yn wahanol i’r Alban a’r DU lle daw newyddion lleol yn drydydd (mae’n bedwerydd yng Nghymru). Mae traffig a theithio lleol yn cwblhau’r pum prif fath o gynnwys ar y radio yng Nghymru.

**Ffigur 27: Y mathau o gynnwys a werthfawrogir fwyaf ar y radio**





*Ffynhonnell: TouchPoints 2019*
*Sail: Gwrandawyr radio wythnosol 15+*

## Gwrando ar radio digidol yng Nghymru

### Mae gwrando ar radio drwy lwyfan digidol bellach wedi pasio gwrando analog

Roedd gwrando digidol – drwy radio DAB, teledu digidol ac ar-lein (gan gynnwys seinyddion clyfar) – yn cyfrif am 51.6% o'r holl wrando yng Nghymru yn Ch1 2020, ar ôl pasio gwrandawyr analog yn Ch2 2019 am y tro cyntaf. Mae hyn yn golygu mai Gogledd Iwerddon yw'r unig wlad yn y DU erbyn hyn lle mae'r rhan fwyaf yn gwrando drwy ddulliau analog o hyd.


**Ffigur 28: Cyfran yr oriau gwrando drwy lwyfannau digidol ac analog yng Nghymru: 2011-2020**




*Ffynhonnell: RAJAR, pob oedolyn, Ch1 bob blwyddyn, TSA BBC Radio Wales.*

Er gwaethaf y cynnydd (3.7pc o flwyddyn i flwyddyn), mae gwrando digidol yng Nghymru (51.6%) yn dal yn is nag yn y DU drwyddi draw (58.6%). Bum mlynedd yn ôl (Ch4, 2014), dim ond 32% o gyfanswm y gwrando yng Nghymru oedd yn gyfrifol am ddigidol.

**Ffigur 29: Y gyfran o oriau gwrando drwy lwyfannau digidol ac analog**





*Ffynhonnell: RAJAR, Pob oedolyn (15+), Ch1 2020; yn BBC Radio TSA ar gyfer pob gwlad.*

## Mae bron i chwe oedolyn o bob deg yng Nghymru yn berchen ar radio digidol DAB

Roedd bod yn berchen ar setiau radio DAB yng Nghymru wedi aros ar 60% yn Ch1 2020, gan gynnwys yn y cartref ac yn y car, ac mae'n ddau bwynt canran yn uwch na blwyddyn yn ôl.

Roedd y niferoedd a oedd yn eu defnyddio yn uwch ar draws y DU drwyddi draw (67%) ac yn yr Alban (67%) ar ddechrau 2020 ond roedd yn dal yn is yng Ngogledd Iwerddon, ar 50%.

**Ffigur 30: Perchnogaeth DAB**




*Ffynhonnell: RAJAR, Pob oedolyn 15 oed a hŷn, Ch1 ym mhob blwyddyn yn Lloegr = TSA BBC Radio Lleol yn Lloegr; yr Alban = TSA BBC Radio Scotland; Cymru= TSA BBC Radio Wales; Gogledd Iwerddon = TSA BBC Radio Ulster.*

### Ofcom yn nodi cynlluniau trwyddedu ar gyfer DAB ar raddfa fach

Bydd DAB ar raddfa fach yn ehangu'r ddarpariaeth radio digidol lleol ac yn sicrhau y bydd gwrandawyr yn gallu gwrando ar amrywiaeth eang o wasanaethau radio ledled y DU ar y llwyfan darlledu sain ddigidol.


Mae'r llwyfan hwn yn defnyddio meddalwedd a thechnoleg gyfrifiadurol sydd ar gael yn helaeth i drawsyrru gwasanaethau radio digidol a'u darlledu mewn ardal ddaearyddol cymharol fach. Mae'n galluogi gorsafoedd i ddefnyddio cyfarpar llawer rhatach i ddarlledu ar yr awyr felly nid yw'n costio hanner gymaint.

Bydd Ofcom yn hysbysebu trwyddedau ar gyfer DAB ar raddfa fach mewn sypiau, gan ddechrau ym mis Medi 2020 gyda 25 ardal leol ledled y DU, gan gynnwys Caerdydd a'r Cymoedd.

Bydd trwyddedau ar gyfer rhaglenni radio cymunedol, ar ffurf trwyddedau Rhaglen Sain Digidol Cymunedol ('C-DSP') newydd, yn agor i bob ardal leol ar yr un pryd ag y bydd hysbysebion trwyddedau amlblecs yn cael eu cyhoeddi.

Bydd DAB ar raddfa fach yn rhoi llwybr fforddiadwy i radio cymunedol, gorsafoedd radio masnachol llai a newydd-ddyfodiaid at radio digidol daearol, gan sicrhau bod amrywiaeth eang o wasanaethau radio yn parhau i fod ar gael ar hyd a lled y Deyrnas Unedig, ar lwyfan sy'n cyfrif am fwy a mwy o wrando ar radio.

## Tueddiadau sain





### Gwrando ar radio byw ydy'r gweithgaredd sain mwyaf poblogaidd yng Nghymru

O'r holl amser sy'n cael ei dreulio bob wythnos yn gwrando ar unrhyw fath o sain, roedd 72% o hyn yn radio. Mae hyn yn uwch na chyfran yr amser a dreulir ar radio yn yr Alban (66%) ac ar lefel debyg i gyfartaledd Prydain Fawr (72%).[19]

[19] Ffynhonnell: TouchPoints 2019, Sail: Rhanbarth Swyddfa'r Llywodraeth: Cymru. Dydy'r ffigurau ddim yn cyfateb i 100% oherwydd talgrynnu.

## Mae gan ychydig dros chwarter y cartrefi yng Nghymru seinyddion clyfar

Mae llawer iawn o wrando digidol newydd yn cael ei wneud drwy seinyddion clyfar. Mae gan ychydig dros chwarter y cartrefi yng Nghymru seinyddion clyfar (26%). Yr Amazon Echo yw'r math mwyaf poblogaidd o bell ffordd (a welir mewn 89% o gartrefi Cymru sydd â seinydd clyfar).




Y ceisiadau mwyaf poblogaidd ymysg defnyddwyr oedd am wybodaeth am y tywydd (63%), chwarae cerddoriaeth drwy wasanaeth ffrydio, fel ar Spotify (62%), neu wrando ar orsaf radio fyw ( 62% hefyd). Mae tua hanner y defnyddwyr yng Nghymru yn defnyddio seinyddion clyfar i gael gwybodaeth gyffredinol ar-lein (50%), i gael adroddiadau newyddion (46%) neu i osod larwm neu restr (46% hefyd). 20

### Adolygiad sain a radio digidol llywodraeth y DU

Mae'r Adran dros faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon wedi cyhoeddi adolygiad o radio digidol a sain i sicrhau bod radio'n addas ar gyfer y dyfodol, o ystyried tueddiadau gwrandawyr sy'n newid. Bydd yr adolygiad yn:

- asesu senarios yn y dyfodol ar gyfer defnyddio cynnwys radio a sain yn y DU ar bob llwyfan radio ac ar-lein, ac asesu effaith y senarios hyn ar fynediad at wasanaethau radio yn y DU;
- asesu effaith modelau tebygol tueddiadau gwrandawyr yn y dyfodol ar strategaethau dosbarthu presennol ac yn y dyfodol ar gyfer grwpiau radio a diwydiant y DU; a
- gwneud argymhellion ar fesurau pellach a chamau cydweithredol i gryfhau diwydiant radio a sain y DU er budd yr holl grwpiau gwrando ac i hyrwyddo arloesedd.

Ym mis Gorffennaf, cynhaliodd yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon a Digital Radio UK drafodaeth rithiol gyda rhanddeiliaid yng Nghymru fel rhan o raglen ymgysylltu i sicrhau bod yr Adolygiad yn ymdrin yn effeithiol â'r holl faterion, cyfleoedd ac argymhellion perthnasol o bob rhan o'r diwydiant. Mae'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn disgwyl cyhoeddi ei adroddiad ar hyn erbyn mis Mawrth 2021.

## Mae un oedolyn o bob wyth yng Nghymru yn gwrando ar bodlediadau bob wythnos

Mae un oedolyn o bob wyth sy'n 15 oed a hŷn yng Nghymru (13%) yn gwrando ar bodlediadau bob wythnos; mae 3% yn gwneud hynny bob dydd.[21] Mae dwy ran o dair o wrandawyr podlediadau[22] yn

[20] Traciwr Technoleg 2020 Ofcom
[21] RAJAR Ch1 2020, UK
[22] Sylwch fod maint y sampl ar gyfer gwrandawyr podlediadau yng Nghymru yn is na 100, felly mae'r data'n ddangosol yn unig a dylid ei drin yn ofalus

defnyddio eu ffôn symudol ar gyfer y gweithgaredd hwn (64%), gyda hanner y gyfran hon yn defnyddio seinydd clyfar (31%).[23]

Ymysg gwrandawyr podlediadau, y math mwyaf poblogaidd o bodlediadau yw fersiynau dal i fyny o raglenni radio'r BBC (64%) fel *Desert Island Discs*, gorsafoedd radio heb fod yn rhai BBC (56%) fel *The Frank Skinner Show*, a phodlediadau eraill gan y BBC (47%)[24] fel *That Peter Crouch Podcast*.

Hefyd yn boblogaidd mae podlediadau sydd hefyd â fersiynau fideo (41%) fel sgyrsiau TED, podlediadau a wneir gan bapurau newydd neu gylchgronau (39%) a'r rheini sy'n gysylltiedig â rhaglenni teledu (16%).

---

[23] Traciwr Technoleg 2020 Ofcom

[24] Podlediadau eraill gan y BBC yw'r rhai na chawsant eu darlledu'n wreiddiol ar y radio ac nad oeddent yn gysylltiedig â rhaglenni teledu